

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin

Bevan / Ysbyty Ystrad Fawr /

Ward Rhymni; Uned Asesu

Meddygol; Ward Oakdale

Dyddiad yr arolygiad: 27 - 29

Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 23 Hydref

2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	21
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	39
4.	Beth nesaf? .....	47
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .....	48
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	49
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	50
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	51

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Ystrad Fawr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 27 - 29 Mehefin 2017. Ymwelwyd â'r mannau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Rhymni
- Uned Asesu Meddygol
- Ward Oakdale

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol, dau gymrawd clinigol a dau adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau ysbyty yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol bod pob un o'r tair rhan o'r ysbyty a arolygwyd gennym (ward Rhymni, yr Uned Asesu Meddygol a ward Oakdale) yn cynnig gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuwyd tystiolaeth gennym nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob man.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Canfuwyd gennym fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu mwyafrif y gwelliannau a amlinellwyd yn ei gynllun gwella yn dilyn ein harolygiad o ward Rhymni yn 2015
- Ar y cyfan, roedd yr adborth cleifion a dderbyniwyd gennym am wasanaethau yn gadarnhaol a gwelsom y staff yn trin cleifion gyda pharch ar draws y tri man a arolygwyd
- Canfuwyd tîm amlddisgyblaeth dda gennym yn gweithio ar ward Oakdale a oedd yn cefnogi cynllunio gofal cleifion yn effeithiol i hybu annibyniaeth
- Canfuwyd asesu a rheoli da o anghenion maethgol cleifion a nodwyd gennym fod staff ar ward Oakdale yn gwneud pob ymdrech i fodloni dymuniadau unigol y cleifion
- Canfuwyd timau staff caredig ac ymroddgar ac uwch reolwyr cefnogol gennym.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Er bod y bwrdd iechyd wedi cynnal y rhan fwyaf o gamau a nodwyd yn ei gynllun gwella yn dilyn ein harolygiad yn 2015, canfuwyd gennym fod angen gwelliannau pellach ym meysydd rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion o hyd
- Roedd angen gwella hygyrchedd ac amlygrwydd gwybodaeth cleifion, a sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o bwy y gallant siarad â nhw am eu triniaeth ar ward Oakdale ac yn yr Uned Asesu Meddygol.

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i hybu systemau sy'n galluogi cleifion a gofalwyr i gynnig adborth ar wasanaethau ar sail barhaus
- Mae angen ffurfioli prosesau ar gyfer brysbennu cleifion yn yr Uned Asesu Meddygol ac mewn agweddau ar ofal llawfeddygol ar ward Rhymni
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio'r adborth a roddir gan feddygon iau a gwneud gwelliannau i'r meysydd a nodir mewn rotas, goruchwyliaeth a chymorth
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu staffio ar ward Oakdale i sicrhau y gall staff roi sylw i gleifion yn brydlon.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n gwasanaethu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Ysbyty cyffredinol lleol yn Ystrad Mynach, Caerffili yw Ysbyty Ystrad Fawr. Agorodd yn 2011 gan ddisodli Ysbyty Glowyr Caerffili, Ysbyty Ystrad Mynach, Uned Iechyd Meddwl Tŷ Sirhowy ac ysbytai cymuned llai yn yr ardal.

Ceir 269 o welyau yn yr ysbyty, pob un mewn ystafell wely ensuite sengl. Ceir Uned Asesu Meddygol dan arweiniad nyrsys yn yr ysbyty hefyd, mewn canolfan frys leol 24 awr, uned iechyd meddwl integredig, ac mae'n darparu gwasanaethau llawfeddygaeth ddydd, diagnostig cynhwysfawr, cleifion allanol a therapi.

Arolygwyd Ysbyty Ystrad Fawr ddiwethaf gan AGIC ar 20 Ionawr 2015. Roedd hyn yn cynnwys arolygiad un ward o ward Rhymni.

Diben ein harolygiad y tro hwn oedd i:

- Wneud gwaith dilynol ar welliannau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, ar ward Rhymni
- Profi pa un a oedd gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf wedi cael eu cyflwyno mewn rhannau eraill o'r ysbyty. Cwblhawyd arolygiad â phwyslais penodol gennym o'r Uned Asesu Meddygol at y diben hwn
- Cynnal arolygiad llawn o ward Oakdale.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys agweddau ar reoli meddyginiaethau a chadw cofnodion. Y rhain oedd y meysydd o bwyslais felly ar gyfer yr arolygiadau o ward Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol. Pan gododd materion eraill yn ystod yr arolygiad o'r manau hyn, fe'u hadroddir o dan y pennawd 'Rhymni/Uned Asesu Meddygol' o dan y safonau perthnasol isod.

Mae manylion y manau i ni eu harolygu fel a ganlyn:

- Uned ddydd lawfeddygol 28 gwely (14 o gilfannau troli ac 14 ystafell wely sengl) yw ward Rhymni, yn arbenigo mewn llawdriniaeth



orthopedig, gynaeoleg, wroleg, y frest, awdioleg a llawdriniaeth gyffredinol. Mae'n uned ryddhau dan arweiniad nyrsys.

- Mae'r Uned Asesu Meddygol wedi'i hatodi at uned mân anafiadau ar wahân. Mae'r Uned Asesu Meddygol hon wedi ei staffio gan Feddygon Meddygol, Uwch-ymarferwyr Nyrsio, Nyrsys Cymwysedig a Chynorthwywyr Gofal Iechyd. Gall yr Uned Asesu Meddygol asesu a thrin cleifion a atgyfeirir gan y meddyg teulu, cleifion a atgyfeirir o'r Uned Mân-anafiadau, cleifion â phroblemau meddygol a drosglwyddir o ambiwlansys a chleifion sy'n hunan-gyflwyno gyda phroblemau meddygol. Mae lle i ddeg claf yn yr Uned Asesu Meddygol. Ceir dwy fan cilfannau â phedwar gwely/troli yr un; un ciwbicl, un pod preifat ac un ardal brysbennu.
- Ward feddygol/adsefydlu 30 gwely (pob un yn ystafell sengl) yw ward Oakdale.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd yr adborth cleifion i ni ei dderbyn ar draws pob un o'r tair rhan o'r ysbyty yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwelsom staff ym mhob adran yn trin cleifion a gofalwyr gyda pharch. Ar ward Oakdale, gwelsom y defnydd cadarnhaol o lyfrau cof a phethau cofiadwy i hybu gofal unigoledig. Roedd yr ystafell aros gyfredol yn yr Uned Asesu Meddygol yn fach ac yn amhriodol ar gyfer y galw am y gwasanaeth, ac felly roedd yn bosibl y gallai effeithio ar gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd angen gwella gwybodaeth cleifion a chyfathrebu ar ward Oakdale ac yn yr Uned Asesu Meddygol i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol, amlwg a hygyrch yn cael ei darparu i'r cleifion.

Er bod swydd cydgysylltydd llif cleifion wedi gwella mynediad at ofal amserol ar draws yr ysbyty, gwelsom fod y staff yn wynebu heriau o ran darparu gofal amserol yn feunyddiol ar ward Oakdale, wrth ymateb yn brydlon i glychau galw, er enghraifft.

Canfuwyd gweithio amlddisgyblaeth da gennym, yn enwedig ar ward Oakdale, lle'r oedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio gofal cleifion i hybu annibyniaeth. Gwelsom enghraifft dda hefyd o staff yn sicrhau hawliau penodol un claf ar ward Oakdale.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi llwyddo i gynnal gwasanaeth gwirfoddolwyr er gwaethaf heriau. Fodd bynnag, roedd angen rhoi mecanweithiau pellach ar waith i rymuso cleifion i gynnig adborth ar wasanaethau ar sail barhaus.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y mae'n cyfathrebu cyfleusterau a gwasanaethau'r ysbyty i'r cyhoedd i sicrhau bod eglurder ynghylch cylch gwaith a swyddogaeth yr ysbyty.

Nid nodwyd unrhyw welliannau i brofiad y claf gennym yn ystod arolygiad 2015 o Ysbyty Ystrad Fawr.

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr yn ystod yr arolygiad hwn i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir, ym mhob un o'r tair adran yr ymwelwyd â nhw. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron (pump ar ward Rhymni, pump yn yr Uned Asesu Meddygol a dau ar ward Oakdale). Hefyd, cawsom sgysiau gyda nifer o gleifion a gofalwyr yn anffurfiol yn ystod yr arolygiad. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ar draws pob un o'r tair adran ar y cyfan.

### *Rhymni*

Ar ward Rhymni, rhoddodd yr holl gleifion adborth cadarnhaol iawn yn yr holiaduron ar eu harhosiad ar y ward; roeddent o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar y ward yn rhagorol, ac roeddent yn cytuno'n gryf bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth a bod y staff yn darparu gofal pan roedd ei angen.

*"Mae fy ngofal ers i mi gyrraedd y ward wedi bod yn rhagorol...mae 10 yn sgôr rhy isel i'r gofal a'r staff yma sy'n gofalu amdanaf i "*

*"Gofal ardderchog ar y ward gan y staff. Balch iawn. Hoffwn enwebu'r staff ar gyfer gwobr "*

### *Yr Uned Asesu Meddygol*

Yn yr Uned Asesu Meddygol, roedd yr adborth a ddarparwyd gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol; rhoddasant sgôr o wyth allan o ddeg i'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ac roedd mwyafrif y cleifion yn cytuno'n gryf bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth a bod y staff yn darparu gofal pan roedd ei angen.

Fodd bynnag, gwnaeth rhai cleifion sylwadau yn yr holiaduron bod problemau gyda diffyg cyfathrebu, er bod y gofal a ddarparwyd yn dda:

*"Mae'r staff wedi bod yn sylwgar ac yn barod i wrando. Darparwyd gofal ar unwaith ond, ar y cyfan, cefais fy ngadael heb gyfathrebiad a fy ngadael yn aros"*

*"Mae dwy nyrs wedi bod yn wych. Y diffyg mawr yma yw cyfathrebu; nid yw'r staff yn dweud wrthym beth sy'n digwydd. Byddai'n tawelu ein meddyliau. Byddai mwy o*

*esboniad yn cael ei werthfawrogi – ni ddywedwyd unrhyw beth wrthyf eto”*

### *Oakdale*

Ar ward Oakdale, rhoddodd y ddau ymatebwr i'r holiaduron adborth cadarnhaol iawn ar eu harhosiad ar y ward; roeddent o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar y ward yn rhagorol, ac roeddent yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth a bod y staff yn darparu gofal pan roedd ei angen.

### *"Gofal ardderchog "*

Er i'r ddau gadarnhau yn yr holiaduron bod ganddynt fynediad at seinydd bob amser, dim ond un ohonynt oedd yn cytuno'n gryf bod y staff yn dod atynt pan roeddent yn defnyddio'r seinydd.

Caiff materion a godwyd gyda ni drwy'r holiaduron cleifion a'r trafodaethau gyda chleifion sylw pellach o dan y safonau perthnasol isod.

## **Cadw'n iach**

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon fel rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

### *Oakdale*

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am y ward trwy becynnau 'Croeso i Oakdale' yn eu hystafelloedd.

Canfuwyd arddangosiadau da o wybodaeth cleifion am Oakdale, yn ogystal â thafleuni hybu iechyd i gynorthwyo cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Er bod amrywiaeth o wybodaeth cleifion ar gael, canfuwyd gennym fod rhai tafleuni yn hen a bod angen fersiynau newydd.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i staff ar ward Oakdale sicrhau bod taflenni gwybodaeth yn cael eu diweddarau'n barhaus fel bod gan gleifion fynediad at wybodaeth gyfredol.

## Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn rhyngweithio gyda chleifion a gofalwyr gyda pharch ar draws pob un o'r tair adran i ni ymweld â nhw.

### *Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol*

Gwelsom ryngweithio caredig a gofalgar rhwng staff a chleifion ar ward Rhymni ac yn yr Uned Asesu Meddygol.

Gwelsom yn yr Uned Asesu Meddygol fod diffyg lle ar y pryd i gleifion a oedd yn aros i gael eu gweld, gan fod yr ystafell aros yn llai nag oedd yn ofynnol erbyn hyn oherwydd y galw am y gwasanaeth. Roedd hyn yn golygu bod cleifion, ar adegau, yn aros mewn coridorau pan roedd yr ystafell aros gyfyng yn llawn. Er i ni weld bod y staff yn gyfrinachgar yn eu rhyngweithio gyda chleifion, roedd yn bosibl y gallai hyn effeithio ar y gallu i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion. Nid oedd cleifion mewn cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad i'r ystafell aros ac roedd yn rhaid iddynt aros yn y coridor. Dywedodd staff rheoli wrthym am gynnig cyllid a oedd wrthi'n cael ei ystyried i awdurdodi estyniad i'r ardal hon. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ac ystyried yr ardal hon i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud.

### *Oakdale*

Gwelsom ryngweithio caredig a gofalgar rhwng staff a chleifion ar ward Oakdale ac roedd y staff yn adnabod y cleifion yn dda. Roedd gan rai cleifion a oedd yn ddryslyd fynediad at eu llyfrau lluniau cof personol a'u pethau cofiadwy eu hunain i gynorthwyo eu dirnadaeth ac i gynorthwyo'r staff i ddatblygu perthynas â nhw. Gwelsom fod y ward wedi cael ei hasesu o ran bod yn ystyriol o ddementia gydag addasiadau'n cael eu gwneud, a oedd yn dangos bod y bwrdd iechyd wedi ystyried anghenion y cleifion hynny yn yr amgylchedd ffisegol.

Roedd amgylchedd y ward yn hygyrch a gwelsom gynlluniau yn cael eu defnyddio i nodi'r cleifion hynny a oedd yn ddryslyd, er mwyn cynorthwyo'r staff

i ddarparu gofal unigoleidig. Roedd gan bob claf ei lety sengl, ensuite ei hun gyda'i deledu ei hun, eitemau personol a hysbysfyrddau. Roedd hyn yn cynnig amgylchedd braf i'r cleifion ac yn golygu y gellid trafod gofal a thriniaeth yn breifat.

Roedd ystafell ar gael i deuluoedd ei defnyddio os oedd eu perthnasau'n derbyn gofal lliniarol. Roedd hyn yn golygu bod darpariaeth i aelodau teulu aros gyda'u hanwyliaid pan roeddent yn agosáu at ddiwedd eu hoes.

Gwelsom wasanaeth gwirfoddolwyr gweithredol ar y ward, gyda'r gwirfoddolwyr yn gallu treulio amser gyda'r cleifion. Roedd gwasanaeth trin gwallt ar gael hefyd. Dywedodd uwch staff rheoli wrthym am leihad diweddar y gwasanaeth gwirfoddolwyr, oherwydd problemau ariannu y tu allan i reolaeth y bwrdd iechyd. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi bod yn rhagweithiol o ran dod o hyd i ateb lleol i sicrhau y gallai gwasanaeth gwirfoddolwyr barhau gyda'r bwriad o ehangu hwn yn y dyfodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwneud ystafelloedd aros i gleifion yn yr Uned Asesu Meddygol yn addas i'r diben o ran maint ac o ran cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

### Gwybodaeth cleifion

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, sylwyd gennym fod diffyg gwybodaeth wedi ei harddangos yn yr Uned Asesu Meddygol. Er bod rhywfaint o wybodaeth am wasanaeth yr Uned Asesu Meddygol yn yr ystafell aros, roedd y rhan fwyaf o wybodaeth cleifion wedi ei harddangos mewn manau eraill. Roedd diffyg gwybodaeth hefyd am yr aelodau staff a oedd yn gweithio, er mwyn galluogi'r cleifion i fod yn ymwybodol o bwy y gallent siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth.

#### *Oakdale*

Roedd amrywiaeth o wybodaeth wedi ei harddangos ac ar gael i gleifion ar ward Oakdale. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod yr holl weithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd eu hamser i esbonio eu gofal a'u triniaeth iddynt.

Fodd bynnag, roedd nifer o gleifion a oedd yn ddryslyd a gwelsom fod diffyg gwybodaeth hygyrch. Dywedodd cleifion wrthym nad oeddent bob amser yn eglur am bwy i siarad â nhw am eu gofal, neu os oedd ganddynt bryder, ac ni welsom unrhyw brosesau hygyrch penodol ar waith i gynorthwyo'r cleifion i adnabod staff. Roedd bwrdd ffotograffau ond nid oedd hwn yn nodi enwau na swyddi. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella hygyrchedd gwybodaeth cleifion ar ward Oakdale.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid arddangos gwybodaeth cleifion yn holl rannau perthnasol yr Uned Asesu Meddygol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei darparu mewn fformatau hygyrch, yn enwedig ar ward Oakdale, lle'r oedd nifer o gleifion drslyd. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod y cleifion yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, yn yr Uned Asesu Meddygol, soniodd y cleifion wrthym eu bod yn aneglur ynghylch pwy y gallent ofyn/cyfeirio eu hymholiadau atynt, o ran eu triniaeth yn yr uned, a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo y gellid gwella cyfathrebu.

#### *Oakdale*

Ar Oakdale, gwelsom fod y staff yn adnabod y cleifion yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion cyfathrebu unigol. Gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a chleifion ar y ward.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd ganddynt fynediad at ddolen sain i gynorthwyo eu cyfathrebu gyda chleifion sy'n defnyddio cymhorthion clyw. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y ward fynediad at offerynnau cyfathrebu i gynorthwyo rhyngweithio gyda chleifion.

#### *Ysbyty*

Roedd rhai o'r cleifion i ni siarad â nhw yn aneglur am gylch gwaith yr ysbyty a'r gwasanaethau yr oedd yn eu darparu. Roedd rhai cleifion yn credu bod yr

ysbyty yn adran frys, er bod y ddarpariaeth yn uned mân-anafiadau â mynediad lloeren at wasanaethau diagnostig ar ôl 5pm. Dywedodd y staff wrthym fod yr Uned Asesu Meddygol yn tueddu i gau am tua 1am ar hyn o bryd. Gwelsom nad oedd yr arwyddion ffordd i'r ysbyty o gymorth yn hyn o beth ac roedd cyfathrebiad y bwrdd iechyd, ar y wefan er enghraifft, yn portreadu'r ysbyty fel canolfan frys. Er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'r cleifion yn cael eu rheoli, dylai'r ysbyty ddarparu gwybodaeth ddigonol a chynhwysfawr am y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella cyfathrebu â chleifion yn yr Uned Asesu Meddygol, yn enwedig o ran sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o bwy y gallant siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff ar ward Oakdale fynediad at yr offerynnau cyfathrebu sydd eu hangen i gynorthwyo'r staff gydag anghenion cyfathrebu unigol y cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod disgwyliadau cleifion yn cael eu rheoli trwy ddarparu gwybodaeth ddigonol a chynhwysfawr am y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

## Gofal amserol

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, dywedodd cleifion yn yr Uned Asesu Meddygol wrthym ni eu bod yn dioddef oediadau cyn derbyn eu canlyniadau gwaed. Archwiliwyd hyn gennym a chanfuwyd fod diffyg mynediad at wasanaethau diagnostig ar y safle ar ôl 5pm.

Pan roeddem ar ward Rhymni, bu'n rhaid i ni dynnu sylw'r clinigwyr at glaf yr oedd ei Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) wedi gwaethygu ond na chymerwyd camau yn sgil hyn. Adolygwyd y claf ar yr adeg hon, fe'i gwnaed yn destun arsylwadau rheolaidd a chynhaliwyd profion priodol. Mae hyn yn codi pryder am allu'r gwasanaeth i adnabod claf sy'n gwaethygu.

### *Oakdale*



Gwelsom fod cyflwyno cydgysylltydd llif cleifion yn yr ysbyty wedi gwella oediadau cyn rhyddhau a dywedodd y staff wrthym fod hyd yr arhosiad i gleifion ar ward Oakdale wedi lleihau o ganlyniad.

O ran diwallu anghenion y cleifion yn feunyddiol ar y ward, gwelsom fod y staff weithiau'n cael anawsterau yn rhoi sylw i gleifion yn brydlon. Er enghraifft, gwelsom ddau glaf yn aros deg munud a thri chlaf yn aros wyth munud i'w clychau galw gael eu hateb. Cadarnhaodd ein trafodaethau gyda chleifion eu bod yn teimlo, er bod y staff yn gwneud eu gorau, bod rhaid iddynt aros i gael eu gweld weithiau. Rhoddir rhagor o sylw i hyn yn yr adran rheolaeth ac arweinyddiaeth isod.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir cael mynediad at ganlyniadau profion gwaed a phroffion diagnostig eraill y cleifion ar ôl 5pm, neu fod protocol priodol ar waith i barhau i gael mynediad at ddiagnosteg a rheoli gofal parhaus y cleifion y tu allan i oriau swyddfa.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, gwelsom enghraifft dda benodol yn yr Uned Asesu Meddygol o frysbenneu diogel ac effeithiol gan weithwyr proffesiynol pan ddaeth claf ifanc i'r adran.

#### *Oakdale*

Canfuwyd gennym yn gyffredinol ar ward Oakdale bod systemau da ar waith i gefnogi'r gwaith o gynllunio gofal y cleifion i hybu annibyniaeth.

Roedd tîm amlddisgyblaeth gweithredol ar waith gan gynnwys ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol a gwelsom fod rowndiau

bwrdd amlddisgyblaeth beunyddiol yn helpu i gynorthwyo asesiad a thriniaeth holistaidd y cleifion. Gwelsom weithrediad da o rowndiau bwriadol<sup>1</sup> fel system i sicrhau bod cleifion yn cael eu monitro yn barhaus.

Roedd y staff yn weithredol ar y ward o ran cynorthwyo'r cleifion i symud a gwelsom fod gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o offer a chymhorthion i'w cynorthwyo i symud. Roedd cynlluniau ymarfer corff y cleifion wedi eu harddangos yn eu hystafelloedd gwely i gynorthwyo patrymau ymarfer corff parhaus.

Gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion i symud ac yn cynnig dewis i gleifion dreulio amser yn yr ystafell gymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain a oedd yn cynnig amgylcheddau unigoleddig ac mewn rhai achosion, pethau cofiadwy, i gynorthwyo gyda dirnadaeth. Ni ddefnyddiwyd llawer ar yr ardal gymunedol yn ystod ein harolygiad ond gwelsom fod y staff yn cynnig gweithgareddau pan roeddent yn gallu a chynigiwyd gweithgareddau wedi eu rhedeg gan y ffisiotherapydd mewn mannau cymunedol pan roedd galw.

Un maes o arfer nodedig y defnydd o therapi atgofion ar y ward y dywedodd y staff wrthym oedd yn cael ei gefnogi gan y meddyg ymgynghorol, i gynorthwyo cleifion yn emosiynol a chyda'u dirnadaeth a'u dealltwriaeth.

Gwelsom enghreifftiau da o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac roedd y swydd cydgysylltydd llif cleifion yn chwarae rhan arwyddocaol o ran lleihau nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau ar y ward.

## Hawliau pobl

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

### *Oakdale*

---

<sup>1</sup> Dull strwythuredig yw rowndiau bwriadol lle mae nyrsys yn cynnal archwiliadau ar gleifion ar adegau penodol i asesu a rheoli eu hanghenion gofal sylfaenol.

Canfuwyd un claf ar ward Oakdale a oedd yn destun Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid<sup>2</sup> ar y pryd. Dangosodd y staff wybodaeth dda am Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a hawliau'r claf yn hyn o beth. Canfuwyd gennym hefyd fod yr holl ddogfennau yn ymwneud â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu cwblhau a'u diweddarau'n briodol ac yn unol ag amserlenni penodedig. Roedd y claf wedi derbyn mewnbwn priodol gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn ôl y gofyn. Roedd taflenni gwybodaeth ar gael ar y ward i gleifion a gofalwyr. Roedd hwn yn faes o arfer da.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

### *Oakdale*

Dywedodd staff rheoli wrthym fod y gwasanaeth gwirfoddolwyr yn cynorthwyo ward Oakdale gyda chynnal holiaduron gyda chleifion. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth gwirfoddolwyr wedi cael ei leihau yn ddiweddar ac ni allem fod yn sicr bod systemau ar waith a oedd yn cynorthwyo cleifion i gynnig adborth ar sail barhaus.

Roedd y bwrdd iechyd yn dilyn canllawiau 'Gweithio i Wella'<sup>3</sup> i reoli cwynion. Bu chwech o gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ward Oakdale. Gwelsom fod staff y ward yn cymryd camau pan fo hyn yn briodol, yn y lle cyntaf, i geisio datrys y gŵyn. Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi a'u huwchgwyfeirio gan staff y ward i'r uwch reolwyr, gyda chamau'n cael eu cymryd fel sy'n briodol. Roedd cwynion yn cael eu monitro ar gyfer themâu a thueddiadau a rhoddodd y staff enghraifft i ni o sut y gwnaed gwelliannau i wasanaethau o ganlyniad. Er

---

<sup>2</sup> Diwygiad i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Nod y trefniadau yw sicrhau bod pobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai yn derbyn gofal mewn ffordd nad yw'r cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid.

<sup>3</sup> 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoli pryderon yn y GIG yng Nghymru.

enghraifft, roedd hyfforddiant cyfathrebu penodol wedi dod yn orfodol i'r holl staff ar y ward, oherwydd y dadansoddiad o themâu cwynion.

Dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut y gallent godi cwynion a gwelsom fod y wybodaeth am gwynion a oedd wedi ei harddangos ar y ward yn hen a bod angen ei newid.

Yn rhan o'n harolygiad, dosbarthwyd holiaduron staff gan AGIC hefyd, ac o ran adborth cleifion, roedd mwyafrif y staff ar ward Rhymni a hanner y staff o ward Oakdale Ward a'r Uned Asesu Meddygol a gwblhaodd holiadur yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau cytbwys yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i rymuso cleifion a gofalwyr i ddarparu adborth ar eu gofal a'u triniaeth yn barhaus ar ward Oakdale.

Mae'n rhaid disodli gwybodaeth am gwynion ar ward Oakdale gyda fersiynau cyfredol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ym mhob un o'r tair adran i ni eu harolygu, canfuwyd enghreifftiau da gennym o'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Canfuwyd gennym hefyd feysydd lle'r oedd angen gwelliannau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd angen gwelliant pellach ym meysydd rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion yn dilyn ein harolygiad yn 2015.

Adolygwyd rheolaeth niwed pwysu gennym ar ward Oakdale a chanfuwyd rheolaeth effeithiol gennym ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses o werthuso gofal a chynnig tystiolaeth o ymyriadau prydlon. Canfuwyd ymwybyddiaeth dda gennym ymhlith y staff o reoli cwympiadau. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o ystyriaeth i gynnal asesiadau risg cwympiadau ar ward Rhymni.

Canfuwyd rheolaeth dda gennym yn gyffredinol o ran atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd gennym yn yr amgylchedd ar ward Oakdale yr oedd angen eu gwella. Mae angen hefyd i amserlenni glanhau gael eu cwblhau'n llawn ar ward Rhymni ac yn yr Uned Asesu Meddygol.

Roedd angen gwelliannau i hyfforddiant staff ar amddiffyn oedolion a phlant ym mhob un o'r tair adran.

Nodwyd agweddau gennym ar ddwy broses yr oedd angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd hyn o ran brysbennu cleifion yn yr Uned Asesu Meddygol a neilltuo cleifion i'r ystafell aros; ac agweddau ar y broses lawfeddygol ar ward Rhymni.

Yn ystod arolygiad 2015 o Ysbyty Ystrad Fawr, nodwyd agweddau gennym ar reoli meddyginiaethau a chadw cofnodion yr oedd angen eu gwella. Nodir manylion y gwelliannau a nodwyd gennym yn 2015, y camau y dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n eu cymryd a'r hyn a ganfuwyd gennym yn ein harolygiad dilynol o ward Rhymni a'r arolygiad â phwyslais penodol o'r Uned Asesu Meddygol o dan y ddwy safon berthnasol isod.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o gwmpas yr ysbyty, nodwyd un maes gennym ar ward Rhymni yr oedd angen ei wella.

Ar ward Rhymni, canfuwyd drysau tân a oedd yn cael eu cadw ar agor (pantrïoedd a storfa). Roedd raseli yn y storfa a allai fod yn beryglus pe bai rhywun yn cael gafael arnynt. Roedd angen ychwanegu manau ymgynnull at weithdrefnau tân a oedd wedi'u gosod ar y wal hefyd, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau tân.

Ac eithrio'r ystafell aros fach yn yr Uned Asesu Meddygol, canfuwyd gennym fod pob rhan o'r ysbyty yn braf ac yn cynnig digonedd o le a chyfleusterau da i gleifion a gofalwyr.

#### *Oakdale*

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod iechyd, diogelwch a lles cleifion yn cael eu hybu a'u diogelu ar ward Oakdale.

Roedd yr amgylchedd ffisegol yn cynnig digonedd o le i'r cleifion a'r staff symud o gwmpas ac roedd lle digonol wedi ei neilltuo ar gyfer storio. Canfuwyd gennym yn ystod taith o gwmpas y ward bod y manau yr oedd cleifion ac ymwelwyr yn eu defnyddio yn drefnus ac yn rhydd o beryglon iechyd a diogelwch amlwg.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn ystod yr arolygiad fod un ystafell lanhau heb ei chloi a chwprdd glanhau wedi ei adael ar agor. Roedd eitemau yn y cwprdd y mae'n ofynnol eu storio yn unol â chanllawiau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Canfuwyd gennym hefyd bod eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu storio ochr yn ochr â mygiau ac eitemau bwyd yr

oedd angen eu gwahanu. Roedd bocsys cardfwrdd yn cael eu storio ar y llawr hefyd.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd allanfa gefn y ward yn cloi bob amser ac roedd angen rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau diogelwch digonol ar y ward.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Ni ddylid cadw drysau tân ar agor ar ward Rhymni. Dylid ychwanegu manau ymgynnull at weithdrefnau tân sydd wedi'u gosod ar y wal.

Mae'n rhaid storio eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn ddiogel ar ward Oakdale ac mae'n rhaid datrys y problemau a nodwyd gyda'r cwpwrdd glanhau.

Mae'n rhaid trwsio'r mecanwaith cloi ar allanfa gefn ward Oakdale.

### Atal niwed pwyso a meinwe

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, o edrych ar gofnodion cleifion yn yr Uned Asesu Meddygol, canfuwyd gennym nad oedd rhai sgoriau Waterlow wedi cael eu nodi ar gyfer yr holl gleifion. Codwyd hyn gyda'r staff ac roedd y rhain wedi cael eu cwblhau y diwrnod canlynol. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod asesiadau i ddarganfod risgiau cleifion o ddatblygu niwed pwyso yn cael eu cynnal yn gyson.

#### *Oakdale*

Mewn dwyset o gofnodion cleifion, canfuwyd gennym pan roedd gan gleifion fannau o niwed pwyso bod camau'n cael eu cymryd i reoli'r manau hyn. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cofnodi ac roedd y gwasanaeth hyfywedd meinwe yn cymryd rhan yn ôl y gofyn o gynnig mewnbwn arbenigol. Fodd bynnag, yn un o'r achosion hyn, nid oedd matres lleddfau pwysau wedi ei gosod er gwaethaf y ffaith fod lefel uchel o risg wedi ei nodi. Er i ni weld bod cynlluniau gofal ar waith, roedd diffyg gwerthusiadau o gynlluniau gofal a diffyg ymateb prydlon wedi ei gofnodi i ddangos sut yr oedd clwyfau yn cael eu rheoli'n effeithiol ar sail barhaus.

Canfuwyd gennym fod rhywfaint o'r dogfennau cofnodi gofal clwyfau o ansawdd gwael gan fod y templed wedi cael ei lungopïo a bod angen adnewyddu'r copïau.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd wiser pwyso un claf wedi cael ei hysbysu fel digwyddiad ar yr adeg iddo gael ei ddarganfod, ac nid oedd hyn yn cyd-fynd â pholisi'r bwrdd iechyd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgoriau Waterlow yn cael eu nodi yn gyson yn yr Uned Asesu Meddygol.

Ar ward Oakdale, mae'n rhaid i gynlluniau gofal niwed pwyso cleifion ddangos gwerthuso parhaus o'r man i ddangos rheolaeth barhaus effeithiol. Mae'n rhaid defnyddio offer lleddfu pwysau yn ôl y gofyn. Mae'n rhaid adnewyddu llungopiau o'r templed gofal clwyfau i sicrhau y gellir eu darllen yn rhwydd. Mae'n rhaid i'r staff hysbysu am wiserau pwyso trwy system Datix y bwrdd iechyd fel y dynodir gan bolisi'r bwrdd iechyd ei hun.

### Atal cwmpau

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd gennym nad oedd asesiadau risg o gwmpo yn cael eu cynnar ar ward Rhymni. Esboniodd y staff bod hyn gan fod y rhan fwyaf o'u cleifion yn gallu symud ac yn annibynnol yn nodweddiadol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn ystod ein harolygiad bod un claf (a oedd yn ddryslyd) wedi cwmpo y diwrnod cynt ac nad oedd asesiad risg o gwmpo wedi cael ei gynnal. Cynghorwyd y bwrdd iechyd i ystyried anghenion cleifion o ran cwmpau ar sail unigol ac i sicrhau bod asesiadau r waith pan fo angen y rhain.

Canfuwyd llyfrynnau asesu risg gennym yn yr Uned Asesu Meddygol, a oedd yn cynnwys adran asesu'r risg o gwmpo. Fodd bynnag, gan fod dogfennau asesu'r risg o gwmpo newydd wedi cael eu cyflwyno, roedd yn rhaid i'r staff gwblhau'r asesiadau hyn ar wahân i'r llyfryn bellach. Nid oedd y cleifion i ni eu hadolygu mewn perygl o gwmpo, ond dangosodd y staff ymwybyddiaeth o'r broses o asesu risg cleifion yn ôl y gofyn.

#### *Oakdale*

Ar Oakdale, canfuwyd gennym fod asesiadau a chynlluniau risg o gwmpo llawn a chynhwysfawr ar waith. Dangosodd y staff wybodaeth dda o ran ymwybyddiaeth o gwmpau a'u hatal.

Gwelsom fod cwmpau yn cael eu cofnodi a'u monitro. Bu 13 o gwmpau cleifion ym mis Mehefin. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn rhannol oherwydd yr amgylchedd, a oedd yn gwneud monitro cleifion yn anodd.



## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr angen i gyflwyno asesiadau risg o gwmpo ar ward Rhymni fel y gellir asesu risg a rheoli anghenion unigol o ran cwmpau yn ôl y gofyn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i leihau nifer y cwmpau a sut y maent yn bwriadu gostwng nifer y cwmpau cleifion ar draws safle'r ysbyty ac ar ward Oakdale yn fwy penodol.

## Atal a rheoli heintiau

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni. Fodd bynnag, tynnwyd ein sylw at y ffaith nad oedd amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n llawn yn y ddwy adran. Er bod yr adrannau'n ymddangos yn lân yn weledol, roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu gwirio a oedd archwiliadau gofynnol rheolaidd, fel tynnu dŵr, yn cael eu cynnal. Roedd arolwg yn llawer o'r ystafelloedd cyn-asesu ar ward Rhymni, a oedd yn awgrymu nad oedd dŵr yn cael ei dynnu. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn siŵr bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn barhaus.

Canfuwyd gennym hefyd fod peiriannau gel dwylo yn yr Uned Asesu Meddygol yn wag, gan gynnwys yr un yn yr ystafell aros i gleifion.

### *Oakdale*

Canfuwyd rheolaeth dda gennym ar ward Oakdale yn gyffredinol o ran atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd angen gwella sawl agwedd ar yr amgylchedd.

Roedd y ward yn ymddangos yn lân ac yn daclus a gwelsom fod amserlenni glanhau unigol yn cael eu cynnal ar gyfer ystafelloedd y cleifion ac ar gyfer offer.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol a gwelsom staff yn golchi eu dwylo cyn rhoi sylw i gleifion. Roedd gan y staff wybodaeth dda am

fesurau rheoli ac atal heintiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr holl staff yn noeth islaw eu penelinoedd<sup>4</sup>.

Roedd hysbysfwrdd gwybodaeth sepsis da a gwelsom fod blwch cydio "rheoli sepsis" ar gael i hwyluso mynediad i'r staff.

Roedd angen gwella rhai agweddau yn yr olchfa. Canfuwyd dau ddaliwr troethfa budr gennym a dau fan amlwg o droeth wedi sychu ar y rhain. Roedd y peiriant gel dwylo yn wag yn y fan hon hefyd.

Roedd ystafell ymolchi'r ward wrthi'n cael ei defnyddio i storio tafenni ac eiddo cleifion ar y pryd, ac roedd angen clirio'r rhain i sicrhau y gellid defnyddio'r ardal yn briodol fel ystafell ymolchi.

Canfuwyd gennym nad oedd bocsys offer miniog wedi eu labelu a'u dyddio.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid cwblhau amserlenni glanhau yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni yn llawn. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn siŵr bod archwiliadau tynnu dŵr yn cael eu cynnal yn barhaus, yn enwedig yn yr ystafelloedd cyn-asesu ar ward Rhymni. Mae'n rhaid ail-lenwi peiriannau gel dwylo yn yr Uned Asesu Meddygol yn rheolaidd.

Ar ward Oakdale, mae'n rhaid i'r holl staff gydymffurfio â'r polisi noeth islaw'r penelinoedd. Dylid clirio'r eitemau sy'n cael eu storio yn ystafell ymolchi'r ward ar hyn o bryd oddi yno. Mae'n rhaid i gel dwylo fod ar gael yn yr olchfa bob amser ac mae'n rhaid glanhau offer yn yr olchfa yn rheolaidd. Mae'n rhaid labelu a dyddio bocsys offer miniog.

### Maetheg a hydradiad

*Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

---

<sup>4</sup> Mae 'noeth islaw'r penelinoedd' yn golygu na ddylai staff gofal iechyd fod yn gwisgo ewinedd ffug na lliw ewinedd; ni ddylent wisgo oriawr arddwrn neu modrwyon â cherrig; ac y dylent wisgo dillad llewys byr neu allu rholio neu wthio'r llewys i fyny

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

### *Oakdale*

Canfuwyd rheolaeth dda o anghenion a chymorth maethgol y cleifion ar ward Oakdale. Canfuwyd gennym fod siartiau bwyd a hylif yn cael eu defnyddio'n briodol a'u bod wedi cael eu cwblhau i gynorthwyo i fonitro cymeriant cleifion. Canfuwyd gennym fod y staff yn cynorthwyo'r cleifion i fwyta ac yfed pan roedd hyn yn ofynnol a gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion i gadw wedi eu hydradu.

Gwelsom amser bwyd ar y ward a chanfuwyd ei fod yn drefnus ac yn gadarnhaol o ran profiad y cleifion. Roedd y cleifion yn derbyn bwydlen ar ddechrau'r diwrnod i ddewis eu prydau ac roedd amser bwyd a ddiogelir yn golygu nad oedd y cleifion yn cael eu tarfu. Gwelsom fod y staff yn cynnig dewisiadau i'r cleifion a'u bod yn gallu bodloni ceisiadau unigol am eitemau bwyd penodol a oedd yn arbennig o gadarnhaol.

Canfuwyd gennym fod trolïau bwyd newydd yn cael eu defnyddio ac y gellid eu plygio i mewn wrth y fynedfa i'r ward yn unig. Roedd hyn yn creu rhwystr ffisegol i'r ward ac nid oedd yn ymarferol o ran parhau i ddefnyddio hyn fel y brif fynediad/allanfa tra bod prydau'n cael eu gweini.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r staff sicrhau y gellir plygio trolïau bwyd i mewn mewn mannau ar ward Oakdale sy'n caniatáu i fwyd gael ei ddosbarthu'n ddiogel heb greu rhwystr i'r fynedfa/allanfa.

### Rheoli meddyginiaethau

Yn dilyn ein harolygiad yn 2015, gofynnwyd i'r bwrdd iechyd wneud dau welliant i'r broses rheoli meddyginiaethau. Nodir y gwelliannau a nodwyd gennym, y camau y dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n eu cymryd a'n canfyddiadau o'r arolygiad hwn isod:

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Mae'n rhaid i'r holl feddyginiaeth a ragnodir gael ei llofnodi gan ymarferwr â chymwysterau priodol cyn ei rhoi i glaf.
- Ymateb y bwrdd iechyd: Ddydd Llun 9 Mawrth 2015, yn rhan o'r cyfarfodydd ward rheolaidd, hysbyswyd y staff am bolisi BIPAB ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Gofynnwyd i'r holl staff gael mynediad at

y polisi ac, ar ôl iddynt ei ddarllen, byddwn yn gofyn iddynt lofnodi a chofnodi eu bod wedi darllen a deall.

### *Rhymni, yr Uned Asesu Meddygol ac Oakdale*

Canfuwyd gennym yn yr holl fannau i ni eu harolygu nad oedd ocsigen yn cael ei roi ar bresgripsiwn o hyd a bod y system o sticeri a argraffwyd ymlaen llaw yn dal i gael ei defnyddio.

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Mae'n rhaid i ddau aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol dystio'r weithred o roi meddyginiaeth a reolir. Dylid diweddarau'r rhestr llofnodion staff i ddangos atebolrwydd a bod cyffuriau a reolir wedi cael eu rhoi'n ddiogel.
- Ymateb y bwrdd iechyd: Ddydd Llun 9 Mawrth 2015, yn rhan o'r cyfarfodydd ward rheolaidd, hysbyswyd y staff am bolisi BIPAB ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Gofynnwyd i'r holl staff gael mynediad at y polisi ac, ar ôl iddynt ei ddarllen, byddwn yn gofyn iddynt lofnodi a chofnodi eu bod wedi darllen a deall.

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd cydymffurfiaeth â pholisi'r bwrdd iechyd yn y ddwy ardal ac roedd systemau ar waith i ddiweddarau'r rhestr llofnodion staff yn barhaus. Canfuwyd gennym yn yr Uned Asesu Meddygol bod cyffuriau a reolir a ddychwelwyd yn cael eu cofnodi yn y llyfr archebion cyffuriau a reolir. Er ei bod yn bosibl y gallai fod dryswch, fe'n sicrhawyd gan staff y bwrdd iechyd bod hyn yn bodloni eu polisi a bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

Gwelsom fod archwiliadau stoc cyffuriau a reolir yn cael eu cynnal a chadarnhaodd staff fferylliaeth y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau.

### *Canfyddiadau ychwanegol ar ward Rhymni/yn yr Uned Asesu Meddygol o ran rheoli meddyginiaethau*

Ar ward Rhymni, canfuwyd gennym fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol, bod gan yr holl gleifion fandiau adnabod a bod alergeddau'r cleifion wedi eu cofnodi'n eglur. Fodd bynnag, o edrych ar gofnodion theatr y cleifion, gwelsom nad oedd un siart anesthetig yn un set o gofnodion yn cofnodi tymheredd y claf na'r amser y rhoddwyd cyffuriau.

Yn yr Uned Asesu Meddygol, canfuwyd gennym fod mynediad at yr ystafell amlbwrpas lân trwy ddefnydd o gerdyn allwedd. Fodd bynnag, dywedodd y staff

wrthym ei bod yn cael ei chadw heb ei chloi ar y pryd oherwydd prinder cardiau allwedd ymhlith y staff. Codwyd hyn gyda'r staff a chafodd ei ddatrys ganddynt ar unwaith.

Canfuwyd gennym yn yr Uned Asesu Meddygol hefyd, pan roedd meddyginiaeth yn cael ei atal yn fwriadol, nad oedd y nodiadau yn nodi dyddiadau adolygu ar gyfer ailddechrau'r feddyginiaeth.

Canfuwyd gennym ar draws yr holl adrannau i ni ymweld â nhw nad oedd tymheredd mannau storio meddyginiaeth yn cael ei reoli ac nid oedd archwiliadau rheolaidd o dymheredd ystafelloedd yn cael eu cynnal i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio o fewn ystod tymheredd diogel. Mae hwn yn un o ofynion Hysbysiad Diogelwch Cleifion 030 Llywodraeth Cymru (Ebrill 2016).

### *Oakdale*

Ar y cyfan, canfuwyd systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar waith ar ward Oakdale.

Canfuwyd gennym fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd tymheredd ystafelloedd yn cael ei gofnodi ac rydym wedi rhoi sylw i hyn isod.

Canfuwyd gennym fod yr holl gleifion yn gwisgo bandiau adnabod. Roedd siartiau rhoi meddyginiaeth, yr oedd y staff yn eu llofnodi ar ôl rhoi meddyginiaethau i gleifion, yn gywir, wedi eu llofnodi ac wedi'u dyddio. Roedd y rhain yn dangos alergeddau'r cleifion yn eglur.

Canfuwyd defnydd da o sticer gwrthfotigau gennym, ond nid oedd yr hyd wedi ei gwblhau. Mae dyddiad hyd yn sicrhau bod y moddion gwrthfotig yn cael ei derfynu'n brydlon. Mae hwn yn arfer da gan y gall parhau i gymryd gwrthfotigau y tu hwnt i'r amser hwn achosi ymwrthedd a Chlostridium Difficile. Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad o ragnodi gwrthfotigau a bod dyddiadau hyd yn cael eu cyflawni. Nid oedd ocsigen yn cael ei ragnodi, ac rydym wedi rhoi sylw i hyn isod.

Canfuwyd gennym fod y llyfr cyffuriau a reolir yn gyflawn ac yn gyfredol gydag archwiliadau cydbwysu yn cael eu cynnal gan y staff fferylliaeth a nyrsio. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlenni a nodir ym mholisi'r bwrdd iechyd.

Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisi rheoli meddyginiaethau gan ddefnyddio copi papur ar y ward a thrwy'r fewnwyd.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Ar draws yr holl adrannau a arolygwyd, mae'n rhaid i bresgripsiynau ocsigen gael eu llofnodi gan ymarferwr â chymwysterau priodol.

Ar ward Rhymni, mae'n rhaid i siartiau anesthetig gofnodi tymheredd y claf ar yr adeg y rhoddir cyffuriau.

Pan fydd meddyginiaethau'n cael eu hatal yn fwriadol, dylid dynodi dyddiadau adolygu yn eglur ar gyfer aildechrau meddyginiaethau. Nodwyd fod angen rhoi sylw i hyn yn yr Uned Asesu Meddygol.

Ar draws yr holl adrannau a arolygwyd, mae'n rhaid rheoli tymheredd manau storio meddyginiaeth a chynnal archwiliadau rheolaidd o dymheredd ystafelloedd i sicrhau y cynhelir tymheredd storio priodol.

Dylid cyflwyno archwiliad o ragnodi gwrthfotigau a dylid cwblhau dyddiadau hyd wrth ragnodi gwrthfotigau.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni. Fodd bynnag, roedd ystadegau hyfforddi a ddarparwyd yn dangos cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant diogelu oedolion a phlant yn y ddwy adran. Roedd hyfforddiant diogelu oedolion yn isel yn arbennig, gyda 43% o staff wedi cyflawni hyfforddiant lefel un yn yr Uned Asesu Meddygol a 29% ar ward Rhymni.

### *Oakdale*

Roedd polisïau ar waith i gyfarwyddo'r staff wrth reoli achosion diogelu ar ward Oakdale. Fodd bynnag, dim ond 22% o staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion ar lefel un. Roedd yr ystadegyn cydymffurfio ar gyfer diogelu plant yn uwch, sef 72%. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y staff yn gyfredol o ran eu gwybodaeth am reoli achosion diogelu.

Canfuwyd gennym nad oedd nifer yr achosion Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed wedi ei nodi ar y pryd ar y dangosfwrdd ansawdd, ond dywedodd y staff wrthym eu bod yn bwriadu gwneud hyn maes o law. Bydd hyn yn cynorthwyo'r isadran i fonitro achosion Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn agosach ar draws wardiau.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Roedd cyfradd cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff isel ar draws pob un o'r tair adran a arolygwyd ym meysydd diogelu oedolion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn cyn gynted â phosibl. Roedd angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu plant hefyd.

## Rheoli gwaed

Ni thrafodwyd y safon hon y tro hwn, ond dywedodd y staff eu bod yn gallu cael mynediad at gyflenwadau gwaed heb drafferth pan fo angen.

## Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau diagnostig

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Fodd bynnag, canfuwyd man gennym yn yr Uned Asesu Meddygol lle'r oedd offer yn cael ei storio. O archwilio'n agosach, gwelsom fod diffyg tystiolaeth i ddangos bod yr offer yn y fan hon yn cael ei lanhau a gwelsom fod angen trwsio rhai darnau o offer ac nad oeddent wedi cael eu symud oddi yno. Dywedodd y staff wrthym fod offer o fannau eraill yn cael eu storio yma weithiau. Roedd hyn yn golygu bod perygl y gallai'r archwiliadau glanhau a chynnal a chadw arferol gael eu methu.

### *Oakdale*

Dywedodd y staff wrthym ei bod yn hawdd cael mynediad at offer a dyfeisiau meddygol.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhoi sylw i'r man anffurfiol a ddefnyddir ar gyfer storio offer yn yr Uned Asesu Meddygol i sicrhau bod yr offer yn cael ei lanhau a'i archwilio'n briodol a bod unrhyw offer sydd wedi torri yn cael ei symud o'r fan hon.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni. Fodd bynnag, archwiliwyd rhai o'r gweithdrefnau rheoli cleifion yn y ddwy adran a chanfuwyd rhai meysydd i'w gwella.

Archwiliwyd rhai agweddau ar brosesau llawfeddygol gennym ar ward Rhymni. Canfuwyd dau faes yr oedd angen eu gwella. Canfuwyd gennym y bu newidiadau hwyr i drefn y rhestr llawdriniaeth fel bod gwahanol gleifion yn derbyn llawdriniaeth mewn gwahanol drefn. Canfuwyd rhestrau llawdriniaeth gennym ar y ward nad oeddent wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Ni allem ddod o hyd i dystiolaeth o broses eglur a oedd yn sicrhau bod holl aelodau'r tîm gofal iechyd yn cael eu hysbysu am newidiadau i'r rhestr theatr. Nid oedd unrhyw broses effeithiol ar gyfer rheoli fersiynau rhestrau theatr (gan sicrhau nad yw gwahanol fersiynau o restrau ar gael).

Canfuwyd gennym hefyd mewn un achos na chofnodwyd tymheredd claf a oedd yn derbyn llawdriniaeth yn ystod y llawdriniaeth. Gwelsom hefyd nad oedd tymheredd wedi ei gofnodi ar gofnod meddygol claf a oedd wedi derbyn llawdriniaeth.

Canfuwyd enghraifft dda o arfer gennym ar ward Rhymni, gyda'r rhybudd diogelwch cleifion perthnasol wedi ei argraffu ar gefn y rhestr wirio cyn-llawdriniaeth.

Yn yr uned asesu meddygol, archwiliwyd y protocol ar gyfer cleifion sy'n aros yn y coridor ac mewn manau anghlinigol. Fe'n hysbyswyd yn ystod yr arolygiad gan glaf a oedd ar droli ei fod wedi bod yn aros am wely ers cryn amser. Awgrymir bod cleifion sydd ar droliau yn cael eu monitro a bod proses uwchgyfeirio briodol yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu symud i wely o fewn cyfnod priodol o amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn brysbennu cleifion yn ôl eu hanghenion ac yn defnyddio asesiadau risg unigol cleifion a'u dyfarniad clinigol i neilltuo cleifion i aros yn y manau hyn. Fodd bynnag, ni welsom y defnydd o system na dull brysbennu penodol yn yr Uned Asesu Meddygol. Roedd natur yr amgylchedd yn ei gwneud yn anodd i'r staff fonitro manau aros yn effeithiol i gynorthwyo rheolaeth effeithiol o'r fan hon. Dylai fod protocol ffurfiol ac asesiad risg ar waith sy'n amlinellu sut y mae'r system o neilltuo cleifion i aros mewn coridorau yn cael ei rheoli'n ddiogel.

### *Oakdale*

Gwelsom ar ward Oakdale fod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu gan dîm amlddisgyblaeth i sicrhau y gellir asesu a rheoli anghenion holistaidd cleifion. Rhoddwyd enghreifftiau da i ni o'r ddarpariaeth o ofal o ansawdd uchel



gan y staff a'r cleifion, ac roedd ein hadolygiad o gofnodion cleifion yn cefnogi hyn.

Roedd system archwilio ar waith a oedd yn cynorthwyo'r staff i fonitro agweddau ar ofal fel cwmpau cleifion a niwed pwyso. Roedd croesau diogelwch yn cael eu harddangos fel ffordd o hysbysu cleifion a'r cyhoedd am y data hwn yn barhaus. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd y rhain wedi cael eu diweddarau mewn un achos i sicrhau bod gwybodaeth gywir wedi ei harddangos am niwed pwyso.

Roedd digwyddiadau yn cael eu hadrodd trwy system electronig y bwrdd iechyd (Datix). Gwelsom fod digwyddiadau yn cael eu dadansoddi i gynorthwyo dysgu. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent bob amser yn derbyn adborth ar y digwyddiadau yr oeddent yn eu hadrodd a dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i lenwi'r bwlch o ran hysbysu'r staff am ganlyniadau.

### *Arolwg staff*

Dosbarthodd AGIC holiaduron staff ym mhob un o'r tair adran glinigol fel rhan o'n harolygiad. Holwyd staff ar draws y tair adran yn yr holiadur am eu hiechyd, eu llesiant a'i diogelwch yn y gwaith. Yn yr Uned Asesu Meddygol, roedd tri chwarter y staff yn cytuno'n gryf neu'n cytuno yn gyffredinol bod eu swyddi yn dda i'w hiechyd. Dywedodd tri chwarter y staff hefyd eu bod wedi gweld camgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi brifo naill ai staff neu gleifion ac adroddwyd y digwyddiad diwethaf ganddyn nhw neu gydweithiwr. Roedd mwyafrif y staff yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn eu hannog i hysbysu am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ond nid oedd ganddynt hyder y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad oeddent yn digwydd eto. Dywedodd y staff nad ydynt yn cael eu hysbysu am unrhyw gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau sy'n digwydd yn y bwrdd iechyd, ond roedd y mwyafrif yn teimlo eu bod yn derbyn adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i'r rheini a adroddir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC sut y bydd yn sicrhau bod yr holl bersonél perthnasol yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau hwyr i restr theatr. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos y camau a gymerwyd i sicrhau bod prosesau eglur ar waith sy'n sicrhau nad yw rhestrau theatr anghywir

dyblyg ar gael ar yr un pryd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos i AGIC y camau a gymerwyd i sicrhau bod tymheredd cleifion yn cael ei archwilio a'i gofnodi'n briodol yn ystod (ac nid dim ond ychydig cyn ac ar ôl) llawdriniaeth. Dylai fod system effeithiol sy'n sicrhau bod y perygl o hypothermia amdriniaethol cyn lleied â phosibl i bob claf.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod protocol ac asesiad risg ffurfiol ar waith yn yr Uned Asesu Meddygol o ran neilltuo cleifion sy'n aros mewn coridorau a'r fan aros nad yw'n cael ei monitro.

Dylid diweddarau croesau diogelwch ar ward Oakdale yn barhaus i adlewyrchu gwybodaeth archwilio yn briodol.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd**

#### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Ni thrafodwyd y safon hon yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

#### *Oakdale*

Canfuwyd enghreifftiau gennym o ofal a thriniaeth o ansawdd da yn cael eu darparu ar ward Oakdale.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu**

Ni thrafodwyd y safon hon yn llawn yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, roedd y staff ym mhob adran yn gallu cael mynediad at bolisiâu a gweithdrefnau ar-lein a oedd yn cynnig canllawiau ar gyfer eu gwaith.

### **Cadw cofnodion**

Yn dilyn ein harolygiad yn 2015, gofynnwyd i'r bwrdd iechyd wneud pedwar gwelliant i'r broses cadw cofnodion. Nodir y gwelliannau a nodwyd gennym, y camau y dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n eu cymryd a'n canfyddiadau o'r arolygiad hwn isod:

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Dylai rheolwr y ward ddatblygu system i archwilio dogfennau cleifion i sicrhau bod yr ansawdd a'r safonau'n foddhaol.
- Ymateb y bwrdd iechyd: Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn yr Archwiliadau Ymddiried mewn Gofal misol arfaethedig. Cynhelir yr

archwiliadau hyn gan Uwch Nyrs ac mae'r canlyniadau ar gael ar y gyriant a rennir yn electronig, Gofal wedi'i Drefnu.

### *Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd gennym fod gan y bwrdd iechyd systemau ar waith i archwilio dogfennau, er enghraifft, trwy arolygiadau 'Ymddiried mewn Gofal' mewnol a thrwy'r system monitro Safonau Iechyd a Gofal. Gwelsom dystiolaeth o weithgarwch archwilio yn y ddwy adran, ond nid oedd rhai archwiliadau yn yr Uned Asesu Meddygol wedi cael eu cwblhau'n unol ag amserlenni penodedig.

Ni allem fod yn sicr yn yr Uned Asesu Meddygol nac ar ward Rhymni bod camau'n cael eu cymryd o ganlyniad i archwilio dogfennau a chadarnhaodd y staff bod hyn yn anffurfiol. Ni allem fod yn sicr felly bod systemau digonol ar waith i wneud gwelliannau i gofnodion cleifion ar draws yr adrannau hyn ar sail barhaus.

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Mae angen i feddygon lofnodi, argraffu a datgan eu swydd wrth wneud cofnodion yn nodiadau'r cleifion.
- Ymateb y Bwrdd Iechyd: Rhannwyd hyn gyda'r holl Arweinwyr Clinigol ar gyfer yr adran. Gofynnwyd i'r argymhelliad hwn gael ei gyfathrebu gyda'u timau meddygol

### *Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd gwelliant gennym yn y maes hwn yn y ddwy adran a chanfuwyd fod meddygon wedi cynnwys eu swydd ac wedi llofnodi a dyddio cofnodion cleifion.

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Mae angen i'r ward fabwysiadu'r defnydd o raddfa rheoli poen gydnabyddedig ar gyfer yr holl gleifion, waeth sut y mae poenladdwyr yn cael eu rhoi.
- Ymateb y bwrdd Iechyd: Ers cwblhau'r Archwiliad, mae rheolwr y ward wedi creu cysylltiad ag adnoddau'r tîm Rheoli Poen. Trafodwyd a chyflwynwyd cynllun i gael graddfeydd rheoli poen gweledol unigol.

### *Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd gennym nad oedd y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r graddfeydd rheoli poen gweledol fel yr oedd wedi ei nodi yn ei gynllun. Nid oedd y staff yn gallu cofio pam nad oedd y rhain wedi cael eu cyflwyno.

Canfuwyd gennym fod system rheoli poen gydnabyddedig ar waith yn y ddwy adran yn rhan o'r System Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS<sup>5</sup>). Fodd bynnag, canfuwyd rhai anghysondebau gennym o ran sut yr oedd hon yn cael ei defnyddio yn ymarferol. Canfuwyd un achos gennym yn y ddwy adran lle'r oedd y sgôr NEWS yn dynodi y dylid gwneud gwaith monitro/cymryd camau ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd yn ymarferol ac nid oedd y cofnodion ar gyfer y cleifion hyn yn rhoi rhesymau i esbonio pam nad oedd gwaith monitro/camau ychwanegol yn cael ei wneud/eu cymryd. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn dilyn y dull cydnabyddedig neu'n cofnodi eu cyfiawnhad clinigol i gynnig tystiolaeth lawn o'r rhesymau nad ydynt yn ei ddilyn.

Gallm weld yn gyffredinol bod poen y cleifion hyn yn cael ei reoli'n briodol pan arsylwyd y cleifion gennym ac y cawsom sgysiau â nhw. Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn yr Uned Asesu Meddygol nad oedd sgoriau poen bob amser yn cael eu diweddarau ac nid oedd un claf yn derbyn mesurau lleddfu poen gofynnol tan i ni godi hyn gyda'r staff. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn asesu poen cleifion yn briodol yn barhaus ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi a bod lladdwyr poen priodol yn cael eu rhoi.

- Gwelliant angenrheidiol AGIC: Mae angen brys i reolwr y ward dderbyn hyfforddiant ar gadw cofnodion electronig. Nodwyd y gwelliant hwn gan nad oedd y ward wedi bod yn defnyddio'r systemau electronig penodol i'r bwrdd iechyd i gofnodi digwyddiadau ac archwiliadau.
- Ymateb y bwrdd iechyd: Bydd hyfforddiant diweddarau arfaethedig ar gyfer rheolwr y ward yn digwydd ar brynhawn 23 Mawrth gydag Arweinydd BIPAB ar gyfer FOC

Canfuwyd gennym fod rheolwr y ward wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn erbyn hyn a bod yr holl ddigwyddiadau ac archwiliadau yn cael eu cofnodi'n briodol drwy'r system electronig.

*Canfyddiadau ychwanegol ar ward Rhymni/yn yr Uned Asesu Meddygol o ran cadw cofnodion*

---

<sup>5</sup> Offeryn a ddyluniwyd i ganfod cleifion sy'n dirywio ar wardiau ysbyty yw NEWS

Canfuwyd arfer da gennym ar ward Rhymni o ran cofnodi amser real a rowndiau bwriadol.

Canfuwyd rhai bylchau gennym yn y cofnodion dyddiad/amser llofnod mewn nodiadau nyrsio ar ward Rhymni ac yn yr Uned Asesu Meddygol.

Canfuwyd gennym yn yr Uned Asesu Meddygol nad oedd gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys bob amser yn cofnodi eu swyddi.

Canfuwyd gennym yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni gofnodion cleifion wedi eu gadael yn agored a heb eu goruchwyllo mewn rhannau cyhoeddus o'r ward.

### *Oakdale*

Ar Oakdale, canfuwyd gennym ei bod yn hawdd darllen cofnodion cleifion, eu bod wedi eu cyflwyno'n dda a'u bod wedi eu hysgrifennu'n dda. Roedd y cofnodion wedi eu storio'n ddiogel. Canfuwyd gennym fod rhai llungopiâu o rai ffurflenni o ansawdd gwael a oedd yn eu gwneud yn fwy anodd i'w darllen. Dylai'r staff ddisodli'r rhain gyda chopïau sy'n haws eu darllen. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd gweithwyr nyrsio a chymorth gofal iechyd bob amser yn cofnodi eu swyddi yn nodiadau'r cleifion. Gwelsom y defnyddiwyd dull dogfennau nyrsio i archwilio nodiadau cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau archwilio ar gyfer dogfennau cleifion yn gadarn ar draws adrannau a bod monitro digonol i wella safonau cofnodion cleifion ar draws y bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd.

Ar ward Rhymni ac yn yr Uned Asesu Meddygol, mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn dilyn y dull rheoli poen cydnabyddedig a chofnodi camau a gymerir yn llawn; neu gofnodi eu cyfiawnhad clinigol o bâm nad ydynt yn ei ddilyn, mewn achosion lle ystyrir bod hyn yn briodol.

Yn yr Uned Asesu Meddygol, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod sgoriau poen cleifion yn cael eu cofnodi a'u diweddarau a bod y staff yn gallu cynnig tystiolaeth felly o sut y maent yn rheoli poen cleifion ar sail barhaus.

Ym mhob adran, mae'r rhaid i staff nyrsio a gweithwyr cymorth gofal iechyd lofnodi, dyddio ac amseru cofnodion cleifion yn gyson. Mae'n rhaid i'r staff nodi eu swyddi hefyd.

Yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni, ni ddylid gadael cofnodion

cleifion yn agored a heb eu goruchwylio. Mae angen storio cofnodion cleifion yn ddiogel bob amser er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac i atal mynediad heb awdurdod.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuwyd timau staff caredig ac ymroddgar gennym ym mhob un o'r tair adran a oedd yn gweithio i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallent i'w cleifion. Canfuwyd uwch reolwyr amlwg a chefnogol gennym, yn enwedig ar ward Oakdale, lle arolygwyd y safonau hyn yn llawn gennym. Roedd angen rhywfaint o welliant ym mhob adran o ran sicrhau bod y staff yn cadw'n gyfredol â'r holl bynciau hyfforddi statudol a gorfodol.

Canfuwyd gennym ar ward Oakdale bod angen adolygu lefelau staffio er mwyn i AGIC fod yn sicr bod y staff yn gallu diwallu anghenion cleifion yn brydlon. Canfuwyd cydymffurfiaeth da gennym gyda'r staff yn derbyn adolygiadau perfformiad blynyddol.

Canfuwyd gennym fod systemau ar waith i archwilio agweddau ar ofal a thriniaeth cleifion, er mwyn monitro a gwella gwasanaethau.

Cododd meddygon iau rai pryderon ynghylch eu cymorth a'u goruchwyliaeth y mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd eu hymchwilio.

Roedd mwyafrif y camau a oedd yn deillio o arolygiad AGIC yn ystod 2015 wedi cael eu rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, ni wnaed gwaith dilynol ar ddau bwynt yn y cynllun gweithredu ac roedd angen gwelliannau pellach yn gyffredinol o dan y safonau yr oeddem wedi eu nodi'n flaenorol (rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion yn yr holl adrannau i ni eu harolygu.

Ni nodwyd unrhyw welliannau i ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth gennym yn ystod arolygiad 2015 o Ysbyty Ystrad Fawr.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

### *Rhymni/Uned Asesu Meddygol*

Gan fod yr arolygiad yn cynnwys elfen o waith dilynol ar argymhellion blaenorol a wnaed gan AGIC, archwiliwyd gennym sut yr oedd y bwrdd iechyd yn monitro cynlluniau gwella AGIC ac yn hybu dysgu ar draws meysydd o ganlyniad. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ar draws y rhan fwyaf o feysydd yr oeddem wedi eu nodi yn y cynllun yn dilyn arolygiad 2015 o ward Rhymni. Fodd bynnag, roedd dau faes lle'r oedd y bwrdd iechyd wedi nodi y byddai'n cymryd camau ac nad oedd y camau hyn wedi cael eu cymryd. Roedd hyn yn ymwneud â rheoli poen a rhagnodi ocsigen. Nid oedd y staff yn gallu esbonio pam nad oedd y camau hyn wedi cael eu cymryd ac ni allem fod yn sicr bod cynnydd y cynllun gwella yn cael ei fonitro ar lefel ward yn barhaus.

Dywedodd yr uwch reolwyr wrthym fod y themâu o gynlluniau gwella AGIC wedi cael eu crynhoi a bod grŵp ar waith a oedd yn monitro gwaith ar y themâu ar lefel bwrdd iechyd yn barhaus. Roedd hwn yn adrodd yn ôl i bwyllgor ansawdd a diogelwch cleifion cyffredinol y bwrdd iechyd. Oherwydd newid i'r staff nyrsio uwch, roedd y grŵp wrthi'n cael ei adnewyddu. Roedd yn gadarnhaol gweld tystiolaeth fod yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol (yr oedd ward Oakdale yn cael ei rheoli ganddi) yn cadw golwg ar gynlluniau gwella AGIC a'i bod wedi trafod themâu yn ddiweddar yn y pwyllgor ansawdd a diogelwch cleifion is-adrannol.

### *Ward Oakdale*

Roedd rhaglen archwilio barhaus ar ward Oakdale a oedd yn ystyried amrywiaeth o bynciau. Roedd y rhaglen archwilio yn gyfredol ac roedd systemau ar waith i fonitro canlyniadau archwiliadau i gymryd camau ar sail unigol a hefyd i fonitro themâu a thueddiadau. Roedd cyfarfodydd wythnosol ar gyfer sepsis, cwmpau a niwed pwysu a oedd yn digwydd ar y wardiau fel ffordd o wneud cyfarfodydd yn hygyrch i staff ward ac i rannu'r hyn a ddysgwyd. Roedd grŵp ansawdd a diogelwch cleifion is-adrannol hefyd a oedd yn cyfarfod i adolygu data ar gyfer themâu a thueddiadau ac i drafod pob agwedd ar wella'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr isadran hefyd yn llunio bwletin ansawdd a diogelwch cleifion ac yn ei ddsbarthu i staff er mwyn cynorthwyo cyfathrebiad.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd yn cynnal ei arolygiadau ei hun (menter Archwiliadau Ansawdd mewn Gofal Iechyd) o wardiau ar sail barhaus fel ffordd



o wella gwasanaethau. Roedd hyn yn gynhwysfawr a gwelsom fod camau'n cael eu cymryd o ganlyniad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i fonitro cynlluniau gwella AGIC ar lefel ward, yn barhaus, er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau sydd heb eu cymryd yn cael sylw a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ar draws adrannau.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

#### *Rhymni a'r Uned Asesu Meddygol*

Canfuwyd timau staff caredig, gofalggar ac ymroddgar gennym ym mhob un o'r tair adran, a oedd yn gweithio i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallent i'w cleifion. Gwelsom weithio tîm da ym mhob adran.

Dywedodd rhai staff yn yr Uned Asesu Meddygol wrthym eu bod yn cael anhawster i fodloni galw cleifion a gwelsom gyfnod prysur yn yr adran asesu meddygol yn ei chyfanrwydd.

Gwelsom drwy ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd bod angen gwneud gwelliannau o ran sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol yn yr Uned Asesu Meddygol mewn diogelwch tân, diogelu a chodi a chario. Roedd angen gwneud gwelliannau ar ward Rhymni o ran sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol mewn diogelwch tân, trais ac ymddygiad ymosodol a diogelu.

#### *Oakdale*

Canolbwyntiwyd ar drefniadau staffio ar ward Oakdale yn rhan o'r arolygiad hwn. Dywedodd staff wrthym fod cymorth a chyfathrebu da rhwng staff ward ac uwch reolwyr. Roedd ein harsylwadau'n cefnogi hyn ac roedd uwch reolwyr yn amlwg ac allan ar y ward yn ystod yr arolygiad yn cynorthwyo'r staff gyda'r ddarpariaeth o ofal. Cadarnhaodd staff y ward nad oedd y lefel hon o gymorth yn anarferol.

Gwelsom o'n harolygiad o'r rotas bod un achlysur yn ystod y tri mis diwethaf pan nad oedd nifer ddigonol o staff yn gweithio a llenwyd swydd nyrs gofrestredig wag gan weithiwr cymorth gofal iechyd yn yr achos hwn.

Dywedodd y staff wrthym y bu adegau'n ddiweddar pan na fodlonwyd y lefelau arsylwi un i un. Dywedodd y staff wrthym fod hyn oherwydd i aelod o staff cronfa ganslo ar y funud olaf yn ddiweddar. Gwelsom fod y staff wedi uwchgyfeirio hyn ac y darparwyd cymorth wrth gefn pan fo'n bosibl.

Nid oedd staff rheoli'r ward ar gael ar adeg ein harolygiad. Gwnaed iawn am hyn gan bresenoldeb staff uwch reoli yn cynorthwyo'r ward. Roedd rhywfaint o absenoldeb salwch yn effeithio ar y ward ar y pryd. Dywedodd y staff wrthym eu bod weithiau'n cael anawsterau'n dod o hyd i staff i lenwi shifftiau, er bod nyrsys ar y ward yn gwneud shifftiau fel goramser. Er na welsom unrhyw arfer nad oedd yn ddiogel yn ystod yr arolygiad, gwelsom bwysau amlwg ar y ward wrth redeg gyda'r lefelau staffio hyn. Er enghraifft, gwelsom gleifion yn aros tua deg munud ar adegau i glychau galw gael eu hateb, a staff yn mynd â chleifion ar eu seibiannau ar adegau, er mwyn cynorthwyo'r ward. Gwelsom fod yr amgylchedd ffisegol yn golygu ei bod yn cymryd mwy o amser ac yn fwy o her i fonitro cleifion yn rhwydd. Roedd hyn, yn ogystal â chleifion ag amrywiaeth o anghenion cymhleth a dryswch, yn golygu bod y llwyth gwaith yn drwm i'r staff. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio ar y ward er mwyn bod yn sicr y gall anghenion cleifion gael eu diwallu'n ddiogel ac yn brydlon.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth da o ran staff yn derbyn adolygiadau perfformiad a datblygiad blynyddol, lle gellid trafod hyfforddiant, cymorth a pherfformiad.

Gwelsom fod mwyafrif y staff yn gyfredol o ran hyfforddiant statudol, ac eithrio ar gyfer codi a chario a oedd â lefel gydymffurfio o 36% a diogelu oedolion a oedd â lefel gydymffurfio o 22%. Roedd hyfforddiant codi a chario yn cael ei gynnal ar ward Oakdale yn ystod ein harolygiad er mwyn sicrhau bod y lefelau hyn yn codi.

Dosbarthwyd holiaduron staff gan AGIC yn rhan o'n harolygiad ym mhob un o'r tair adran, a gellir gweld canlyniadau'r rhain isod:

#### *Arolwg staff*

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i staff sy'n gweithio ym mhob un o'r tair adran yn ystod ein harolygiad er mwyn canfod eu safbwyntiau ar yr amodau gwaith ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o 15 o holiaduron gennym.

Roedd staff ym mhob un o'r tair adran yn gadarnhaol am y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty, gan gadarnhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser a bod annibyniaeth cleifion yn cael ei hybu bob amser. Ond er bod staff ar ward Rhymni hefyd yn gadarnhaol am reolwyr yn y sefydliad, roedd staff yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Oakdale yn llai

cadarnhaol am yr agwedd hon gyda staff yn yr Uned Asesu Meddygol yn codi rhai pryderon ynghylch digwyddiadau diogelwch cleifion.

Dyweddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cyflawni hyfforddiant neu ddysgu a datblygu mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd llai o staff ar ward Oakdale, o'u cymharu â'r rheini yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni wedi cyflawni unrhyw hyfforddiant, dysgu a datblygu o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a phreifatrwydd ac urddas wrth ofalu am bobl hŷn. Dywedodd staff o'r Uned Asesu Meddygol y byddai hyfforddiant cynnal bywyd uwch, diweddariadau RhYI(DM) a hyfforddiant torri i ffwrdd (gan fod yr Uned Asesu Meddygol yn cymryd cleifion o wardiau seiciatrig pan eu bod yn sâl) yn ddefnyddiol iddynt.

Roedd pawb ond un aelod o staff o ward Oakdale wedi derbyn arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dyweddodd mwyafrif y staff ar draws pob un o'r tair adran wrthym nad oeddent yn gallu bodloni'r holl ofynion a oedd yn gwrthdaro ar eu hamser yn y gwaith weithiau, ond roedd digon o staff yn y sefydliad fel rheol iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn.

Roedd yr holl staff yn teimlo bod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer priodol i wneud eu gwaith. Dywedodd staff yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Oakdale wrthym eu bod fel rheol yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar newidiadau a gyflwynir a oedd yn effeithio ar eu maes gwaith, eu tîm neu eu hadran, tra bod staff ar ward Rhymni yn teimlo mai dim ond weithiau yr oeddent yn cymryd rhan.

Roedd mwyafrif yr aelodau staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â chleifion bob amser yn cael eu grymuso i leisio eu barn a chymryd camau pan fydd problemau'n codi gyda gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain. Roedd y staff yn meddwl bod gan y bwrdd iechyd y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol fel rheol, ac i gymryd camau cyflym pan fo diffygion. Dywedodd mwyafrif y staff ar wardiau Rhymni ac Oakdale, a'r holl staff yn yr Uned Asesu Meddygol wrthym fod y bwrdd iechyd bob amser yn annog gwaith tîm. Dywedodd y rheini o wardiau Rhymni ac Oakdale ond dim ond hanner y rheini o'r Uned Asesu Meddygol bod y bwrdd iechyd yn gefnogol fel rheol. Dywedodd yr holl staff o'r Uned Asesu Meddygol, hanner o ward Oakdale a'r mwyafrif o ward Rhymni a gwblhaodd holiadur bod diwylliant o fod yn agored a

dysgu yn y bwrdd iechyd fel rheol, sy'n cynorthwyo'r staff i nodi a datrys problemau.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff ar draws pob un o'r tair adran yn yr holiadur am eu rheolwyr uniongyrchol a chafwyd adborth cadarnhaol yn gyffredinol. Dywedodd dwy ran o dair o'r staff o ward Oakdale a'r Uned Asesu Meddygol a'r holl staff o ward Rhymni bod eu rheolwr bob amser yn annog y rheini sy'n gweithio iddynt i weithio fel tîm ac yn rhoi adborth eglur i'r staff ar eu gwaith. Dywedodd mwyafrif y staff ar draws pob un o'r tair adran y gellid dibynnu bob amser ar eu rheolwr i helpu gyda thasg anodd yn y gwaith ac i fod yn gefnogol mewn argyfwng personol. Hefyd, roedd eu rheolwr uniongyrchol bob amser neu fel rheol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dywedodd yr holl staff yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni a bron i'r holl staff ar ward Oakdale a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser neu fel rheol yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y bwrdd iechyd. Roedd y staff hynny yn yr Uned Asesu Meddygol yn teimlo nad oedd cyfathrebu bob amser yn effeithiol rhwng uwch reolwyr ac roedd un rhan o dair o'r staff yn teimlo nad yw uwch reolwyr byth yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig. Roedd tri chwarter y staff ar wardiau Rhymni ac Oakdale yn teimlo bod yr uwch reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig fel rheol, a'u bod fel rheol yn gweithredu yn sgil adborth staff. Dywedodd yr holl staff hynny ar ward Rhymni a mwy na dwy ran o dair o'r staff ar ward Oakdale a gwblhaodd holiadur wrthym fod cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a'r staff bob amser neu fel rheol yn effeithiol.

Roedd mwyafrif y staff ar y ddwy ward a'r holl staff yn yr Uned Asesu Meddygol a gwblhaodd holiaduron yn cytuno'n gryf mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad ac y byddent yn ei argymhell fel lle i weithio.

O'r staff hynny ar ward Oakdale a gwblhaodd yr holiadur, dim ond hanner ddywedodd yn gyffredinol bod eu swydd yn dda i'w hiechyd. Dywedodd rhai staff eu bod wedi gweld camgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi brifo staff neu gleifion ac yr adroddwyd y digwyddiad diwethaf ganddyn nhw neu gydweithiwr ond na adroddwyd pob digwyddiad a welwyd gan y staff ganddyn nhw neu gydweithiwr. Roedd mwyafrif y staff yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn eu hannog i hysbysu am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ond nid oedd ganddynt hyder y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad oeddent yn digwydd eto. Roedd mwyafrif y staff yn cytuno eu bod yn derbyn adborth ar newidiadau a wnaed mewn ymateb i

unrhyw gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a adroddwyd.

Dyweddodd yr holl staff yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni a mwyafrif y staff ar ward Oakdale a gwblhaodd holiadur bod y bwrdd iechyd yn gweithredu'n deg o ran cynnydd gyrfacol neu ddyrchafiad, ni waeth beth fo cefndir ethnig, rhyw, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran rhywun. Dywedodd rhai staff yn yr Uned Asesu Meddygol eu bod wedi cael profiad personol o wahaniaethu yn y gwaith gan gleifion, eu perthnasau neu aelodau eraill o'r cyhoedd, neu gan eu rheolwr neu gydweithwyr eraill.

### *Meddygon iau*

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau gymrawd clinigol a siaradodd gyda meddygon iau ar draws yr ysbty i gael eu safbwyntiau ar y cymorth a'r oruchwyliaeth yr oeddent yn eu derbyn. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

- Yn gyffredinol, roedd pawb yn cydnabod y cymorth a ddarperir gan feddygon ymgynghorol i feddygon iau, uwch-ymarferwyr nyrsio a staff nyrsio. Dywedodd y meddygon iau wrthym eu bod o'r farn bod meddygon ymgynghorol yn hawdd mynd atynt ac yn hawdd cysylltu â nhw pan fo angen
- Roedd adborth da ar eu mynediad at wyliau blynyddol ac absenoldeb astudio
- Cododd meddygon iau bryderon ynghylch rotas a dywedasant wrthym fod dau fwllch ar y rota meddygon gradd ganolig ar y pryd. Oherwydd prinder cymorth gweinyddol ar gyfer llenwi'r rotas hyn, dywedodd meddygon iau wrthym fod ansicrwydd, amrywiadau o ran llwythi gwaith ar y wardiau a bod hyn weithiau'n golygu nad oedd gan rai wardiau unrhyw feddygon gradd ganolig
- Cododd meddygon iau bryderon am yr oruchwyliaeth glinigol a ddarparwyd gan feddygon gradd ganolig ar-alwad (nad ydynt yn hyfforddi). Dywedasant wrthym nad oedd modd cysylltu â nhw bob amser pan roedd angen. Dywedodd rhai meddygon iau nad oeddent yn teimlo wedi eu grymuso i uwchgyfeirio'r pryder hwn. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd adolygu hyn fel mater o frys.
- Dywedodd meddygon iau wrthym nad oeddent yn teimlo bod gwaith gwella gwasanaeth yn cael ei hybu. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol derbyn adborth pan roeddent yn adrodd digwyddiadau trwy Datix.

- Nid oedd rhai meddygon iau y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion hyfforddi gorfodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio ar ward Oakdale i sicrhau bod staff digonol i ddiwallu anghenion cleifion a hynny'n brydlon.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei wella ar ward Oakdale, yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio ac ymateb i'r pryderon a godwyd gan feddygon iau a nodir yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- Pryderon am y rota ar gyfer meddygon gradd ganolig
- Pryderon am oruchwyliaeth glinigol a ddarperir gan feddygon gradd ganolig ar-alwad (nad ydynt yn hyfforddi). Mae hwn yn fater difrifol y mae'n rhai ei archwilio a chymryd camau priodol.
- Gwaith gwella gwasanaeth ac adborth ar ddigwyddiadau
- Sicrhau bod meddygon iau yn ymwybodol o hyfforddiant gorfodol ac yn ei gwblhau

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghlŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod gyda rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau y mae'r gwasanaeth wedi eu gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar feysydd penodol i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn yn unig.

Byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol yn ystod ein harolygiadau dilynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn amlygu unrhyw feysydd y mae angen eu gwella o hyd.

Ceir rhagor o fanylion am [sut y mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Canfuwyd gennym yn yr Uned Aseu Meddygol fod yr ystafell amlbwrpas lân lle'r oedd meddyginiaethau'n cael eu cadw yn cael ei gadael heb ei chloi. Roedd hyn oherwydd nad oedd gan y staff ddigon o gardiau allwedd i ddefnyddio'r system mynediad cerdyn allwedd yn effeithiol.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â mynediad at feddyginiaethau heb awdurdod. (Safon 2.6).</p>	<p>Codwyd y pryder hwn gyda staff y ward yn ystod yr arolygiad a gofynnwyd i hyn gael ei ddatrys ar unwaith.</p>	<p>Cafodd y mater ei ddatrys ar unwaith gan y staff a dechreuwyd defnyddio mynediad cerdyn allwedd eto.</p>

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Ystrad Fawr; Rhymni, Uned Asesu Meddygol ac Oakdale

**Dyddiad yr arolygiad:** 27 - 29 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Bronagh Scott

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio

**Dyddiad:** 20 Medi 2017

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Ystrad Fawr; Rhymni, Uned Asesu Meddygol ac Oakdale

**Dyddiad yr arolygiad:** 27 - 29 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i staff ar ward Oakdale sicrhau bod taflenni gwybodaeth yn cael eu diweddarau'n barhaus fel bod gan gleifion fynediad at wybodaeth gyfredol.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Mae'r isadran sylfaenol a chymunedol wedi llunio taflenni gwybodaeth i gleifion ar gyfer pob cyfleuster cleifion mewnol cymunedol  Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o daflenni'r Uned Gwybodaeth Cleifion sydd ar gael trwy fewnwyd y Bwrdd Iechyd	Rheolwr Ward	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwneud ystafelloedd aros i gleifion yn yr Uned Asesu Meddygol yn addas i'r diben o ran maint	4.1 Gofal ag Urddas	Cyflwynwyd costau ariannol i ad-drefnu'r adrannau Uned Asesu Meddygol/Meddyg Teulu y tu allan i	Rheolwr yr Ysbyty	Tach 17

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ac o ran cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.		<p>oriau presennol</p> <p>Ardaloedd i fod yn destun asesiad risg ar adegau o aciwtedd uchel a chynllun Uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i gael ei roi ar waith</p> <p>Teithiau cerdded gan yr arweinwyr i fonitro gweithgarwch sy'n sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion</p>	Uwch Nyrs Rheolwr Ward	
Dylid arddangos gwybodaeth cleifion yn holl rannau perthnasol yr Uned Asesu Meddygol.		Hysbysfwrdd Croeso / Hysbysfwrdd Gwybodaeth i gael ei osod wrth fynedfa'r Uned Asesu Meddygol	Rheolwr Ward	Tach 17
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei darparu mewn fformatau hygyrch, yn enwedig ar ward Oakdale, lle'r oedd nifer o gleifion dryslyd. Mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod y cleifion yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth.		<p>Gwybodaeth i Gleifion/Perthnasau a'r Hysbysfwrdd Croeso i gael eu hadolygu a'u diweddarau</p> <p>Sicrhau'r ddarpariaeth o daflenni gwybodaeth am y ward yn ystafelloedd pob un o'r cleifion</p> <p>Hysbysfwrdd lluniau'r staff i gael ei gyflwyno yn nodi enwau a swyddi holl aelodau staff ward Oakdale</p> <p>Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i</p>	Rheolwr Ward	Tach 17

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gael mynediad at daflenni gwybodaeth mewn braille, sut i gael gafael ar ddehonglwr i'r rheini sy'n defnyddio iaith arwyddion.</p> <p>Argaeledd gwybodaeth cleifion gyfredol a hygyrch i gael ei fonitro trwy rowndiau arweinyddiaeth.</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella cyfathrebiad â chleifion yn yr Uned Asesu Meddygol, yn enwedig o ran sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o bwy y gallant siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Hysbysfyrdau Croeso/Gwybodaeth i gael eu cyflwyno</p> <p>Bydd staff clerigol yn cael eu neilltuo i weithio yn y derbynfydd a chyfeirio staff cleifion/perthnasau yn briodol</p> <p>Taflenni gwybodaeth am y ward i fod ar gael ar gyfer pob claf, gan gynnwys taflen groeso</p> <p>Rheolwr y ward i sicrhau y rhoddir amser i gleifion a'u teuluoedd rannu a thrafod y gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn trwy rowndiau Arweinyddiaeth</p>	<p>Rheolwr Ward</p>	<p>Tach 17</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff ar ward Oakdale fynediad at yr offerynnau</p>		<p>Bydd manylion cyswllt ar gyfer dehonglwyr iaith Arwyddion Prydain ar</p>	<p>Rheolwr Ward</p>	<p>Tach 17</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfathrebu sydd eu hangen i gynorthwyo'r staff gydag anghenion cyfathrebu unigol y cleifion.		<p>gael ar y ward</p> <p>Sicrhau bod dolen sain ar gael ar y ward a bod y staff yn gwybod sut i'w defnyddio</p> <p>Sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau dehonglwyr, laith Arwyddion Prydain os oes angen</p> <p>Sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gyfeirio at therapi Lleferydd ac laith, Ymarferwyr RAID ar gyfer cymorth a chyngor arbenigol</p>		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod disgwyliadau cleifion yn cael eu rheoli trwy ddarparu gwybodaeth ddigonol a chynhwysfawr am y gwasanaethau y mae'n eu darparu.		<p>Pecynnau Gwybodaeth/Croeso i gael eu rhoi i bob claf</p> <p>Hysbysfyrddau i arddangos gwybodaeth berthnasol gyfredol</p> <p>Sicrhau bod teuluoedd a gofalwyr yn cael eu gwahodd i Gyfarfodydd Cynllunio Rhyddhau Cleifion/Cyfarfodydd CIC/cyfarfodydd Cynllunio Nodau, os yw'n briodol</p>	Uwch Nyrs ar gyfer Gofal heb ei Drefnu/Wedi'i Drefnu a'r Is-adran Gymunedol	Uwch Nyrs ar gyfer Gofal heb ei Drefnu/Wedi'i Drefnu a'r Is-adran Gymunedol
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir cael	5.1 Mynediad	Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer	Rheolwr	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>mynediad at ganlyniadau profion gwaed a phroffion diagnostig eraill y cleifion ar ôl 5pm, neu fod protocol priodol ar waith i barhau i gael mynediad at ddiagnosteg a rheoli gofal parhaus y cleifion y tu allan i oriau swyddfa.</p>	amserol	<p>profion diagnostig y tu allan i oriau i gael ei datblygu</p> <p>Wardiau i arddangos trefniadau gweithredol safonol (SOP) ar gyfer diagnosteg a phroffion y tu allan i oriau</p> <p>Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'r angen i uwchgyfeirio i unigolyn perthnasol pe bai problemau'n codi wrth gael mynediad at wasanaeth diagnostig/gofal y tu allan i oriau.</p>	<p>Gwyddorau Gwaed</p> <p>Ymarferwr Safle</p>	
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i rymuso cleifion a gofalwyr i ddarparu adborth ar eu gofal a'u triniaeth yn barhaus ar ward Oakdale.</p>	6.2 Hawliau pobl	<p>Parhau i sicrhau'r ddarpariaeth o arolygon bodlonrwydd cleifion sy'n cael eu trafod yn y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion Ardal</p> <p>Cynlluniau gweithredu i gael eu datblygu yn dilyn adborth</p> <p>Sefydlu Clinigau Gofalwyr neu Rowndiau Arweinyddiaeth</p> <p>Parhau i gynnal Archwiliadau Iechyd o Ansawdd ddwywaith y flwyddyn</p>	Uwch Nyrs	Hydref 17
<p>Mae'n rhaid disodli gwybodaeth am gwynion ar</p>		Sicrhau bod y daflen "Gweithio i Wella"	Rheolwr Ward	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ward Oakdale gyda fersiynau cyfredol.		gyfredol yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd gwybodaeth.		
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Ni ddylid cadw drysau tân ar agor ar ward Rhymni. Dylid ychwanegu manau ymgynnull at weithdrefnau tân sydd wedi'u gosod ar y wal.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Ychwanegwyd arwyddion eglur ar gyfer manau ymgynnull Drysau tân wedi eu cau bob amser Nyrs â gofal i fonitro cydymffurfiaeth trwy deithiau cerdded arsylwadol	Rheolwr Ward	Ar unwaith
Mae'n rhaid storio eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn ddiogel ar ward Oakdale ac mae'n rhaid datrys y problemau a nodwyd gyda'r cwpwrdd glanhau.		Goruchwylydd Domestig i sicrhau bod eitemau'n cael eu storio'n briodol yn unol â'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd Goruchwylydd Domestig i sicrhau bod yr holl staff cyfleusterau yn ymwybodol o'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd Taith gerdded arsylwadol feunyddiol gan y Nyrs â Gofal i sicrhau bod eitemau'n cael eu storio'n briodol yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i	Goruchwylydd Domestig  Rheolwr Ward	Ar unwaith



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Iechyd		
Mae'n rhaid trwsio'r mecanwaith cloi ar allanfa gefn ward Oakdale.		Ffrwd gwaith yn symud ymlaen i edrych ar sicrhau mynediad ac ymadawiad diogel o bob ward yn Ysbyty Ystrad Fawr  Clo'r allanfa gefn i gael ei drwsio yn y cyfamser	Rheolwr Ward	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgoriau Waterlow yn cael eu nodi yn gyson yn yr Uned Aseu Meddygol.	2.2 Atal niwed pwyso a meinwe	Bydd yr asesiadau risg perthnasol ar gyfer yr holl gleifion a dderbynnir i wely yn cael eu cynnal o fewn 4 awr i'w derbyn  Bydd cydymffurfiaeth ag Aseuadau Risg yn cael ei archwilio drwy'r broses RCA fisol  Sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Hyfywedd Meinwe Cymru Gyfan ar gyfer rheoli ac atal wserau pwyso	Rheolwr Ward  Uwch Nyrs	Ar unwaith
Ar ward Oakdale, mae'n rhaid i gynlluniau gofal niwed pwyso cleifion ddangos gwerthuso parhaus o'r man i ddangos rheolaeth barhaus effeithiol. Mae'n rhaid defnyddio offer lleddfdu		Sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Hyfywedd Meinwe Cymru Gyfan ar gyfer rheoli ac atal wserau pwyso- trwy QPS Ardal a'r broses RCA fisol	Uwch Nyrs	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>pwysau yn ôl y gofyn. Mae'n rhaid adnewyddu llungopiau o'r templed gofal clwyfau i sicrhau y gellir eu darllen yn rhwydd. Mae'n rhaid i'r staff hysbysu am wiserau pwyso trwy system Datix y bwrdd iechyd fel y dynodir gan bolisi'r bwrdd iechyd ei hun.</p>		<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda thîm Huntleigh a nyrsys TVN i sicrhau'r defnydd cywir o offer lleddfau pwysau priodol a'i argaeledd</p> <p>Sicrhau bod copïau newydd o siartiau clwyfau ar gael ac yn cael eu defnyddio'n briodol</p> <p>Parhau i fonitro cydymffurfiaeth o ran hysbysu am wiserau pwyso trwy datix ac ail-bwysleisio'r broses i'r holl staff perthnasol</p> <p>Sefydlwyd cyfarfodydd RCA a bydd staff y ward yn eu mynychu i drafod achosion a sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ar draws adrannau</p> <p>Cynnal Archwiliad Iechyd o Ansawdd ddwywaith y flwyddyn</p>	Rheolwr Ward	
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr angen i gyflwyno asesiadau risg o gwmpo ar ward Rhymni fel y gellir asesu risg a rheoli anghenion unigol o ran cwmpau yn ôl y gofyn.</p>	2.3 Atal Cwmpau	<p>Parhau i fonitro cwmpau trwy system datix i fonitro ar gyfer themâu cyffredin</p> <p>Bydd yr holl gleifion a dderbynnir i wely yn derbyn yr asesiadau risg perthnasol</p>	Uwch Nyrs	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		o fewn 4 awr i gael eu derbyn a bydd cydymffurfiaeth yn cael ei archwilio trwy archwiliadau dogfennau ac archwiliadau Gofal Iechyd o Ansawdd		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i leihau nifer y cwmpau a sut y maent yn bwriadu gostwng nifer y cwmpau cleifion ar draws safle'r ysbyty ac ar ward Oakdale yn fwy penodol.		<p>Monitro cydymffurfiaeth cwmpau fesul 1000 diwrnod gwely wedi'i feddiannu yn fisol</p> <p>Prynwyd larymau cwmpau a chyflawnwyd hyfforddiant-monitro'r defnydd o larymau a sicrhau bod yr offer yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n iawn</p> <p>Darparwyd hyfforddiant gan yr Arweinydd Clinigol Ymgynghorol i'r holl aelodau staff yn Ysbyty Ystrad Fawr- i barhau gyda hyfforddiant ac addysg parhaus i'r staff</p> <p>Digwyddiad Osteoporosis cenedlaethol ar gyfer cleifion; y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi ei gynllunio ar gyfer Hydref 17</p> <p>Parhau i fonitro cwmpau trwy system</p>	Uwch Nyrs	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>datix i fonitro ar gyfer themâu cyffredin</p> <p>Gwnaed gwaith i greu cyfleuster ystafell ddydd ar ward Oakdale fel y gellir cynnal gweithgareddau y tu allan i amgylchedd y ciwbicl</p> <p>Staff ward i fynychu cyfarfodydd RCA y Panel Cwmpau i drafod achosion yn arwain at dorri esgyrn a rhannu'r hyn a ddysgwyd mewn Cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion misol</p> <p>Polisi gofal gwell newydd i gael ei gyflwyno a'r staff i gael eu hyfforddi ar y polisi newydd</p>		
<p>Mae'n rhaid cwblhau amserlenni glanhau yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni yn llawn. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn siŵr bod archwiliadau tynnu dŵr yn cael eu cynnal yn barhaus, yn enwedig yn yr ystafelloedd cyn-asesu ar ward Rhymni. Mae'n rhaid ail-lenwi peiriannau gel dwylo yn yr Uned Asesu Meddygol yn rheolaidd.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio</p>	<p>Bydd amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n llawn a chyfrifoldeb am adrannau yn cael ei drafod ar ôl trosglwyddo</p> <p>Cafodd cydymffurfiaeth ei fonitro drwy'r dangosfwrdd Heintiau ac Atal a system monitro Gofal Iechyd GIG Cymru</p>	<p>Rheolwr Wardiau</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Ar ward Oakdale, mae'n rhaid i'r holl staff</p>		<p>Monitro cydymffurfiaeth staff â Pholisi</p>	<p>Rheolwr Ward</p>	<p>Ar unwaith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gydymffurfio â'r polisi noeth islaw'r penelinoedd. Dylid clirio'r eitemau sy'n cael eu storio yn ystafell ymolchi'r ward ar hyn o bryd oddi yno. Mae'n rhaid i gel dwylo fod ar gael yn yr olchfa bob amser ac mae'n rhaid glanhau offer yn yr olchfa yn rheolaidd. Mae'n rhaid labelu a dyddio bocsys offer miniog.</p>		<p>Gwisg y Bwrdd Iechyd yn feunyddiol</p> <p>Parhau i archwilio cydymffurfiaeth o ran Heintiau ac Atal trwy archwiliadau hylendid dwylo, amserlenni glanhau, croesau diogelwch</p> <p>Dylid labelu a dyddio bocsys offer miniog yn briodol unwaith y byddant yn cael eu defnyddio</p> <p>Gel dwylo i fod ar gael ym mhob man glinigol ac i gael ei fonitro drwy'r archwiliadau hylendid dwylo</p>		
<p>Dylai'r staff sicrhau y gellir plygio trolïau bwyd i mewn mewn mannau ar ward Oakdale sy'n caniatáu i fwyd gael ei ddsbarthu'n ddiogel heb greu rhwystr i'r fynedfa/allanfa.</p>	2.5 Maetheg a Hydradiad	<p>Sicrhau bod gan y gwasanaeth troli bwyd fan neilltuedig ar y ward nad yw'n rhwystro llwybrau cerdded</p>	Goruchwylydd Domestig	Ar unwaith
<p>Ar draws yr holl adrannau a arolygwyd, mae'n rhaid i bresgripsiynau ocsigen gael eu llofnodi gan ymarferwr â chymwysterau priodol.</p>	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Ocsigen i gael ei ragnodi'n briodol gan ragnodwr cymwysedig cydnabyddedig</p> <p>Archwilio siartiau presgripsiwn i sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi'n briodol</p> <p>Cynhelir archwiliadau cysoni yn feunyddiol</p>	Arweinydd Fferylliaeth a Chyfarwyddwr Clinigol	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ar ward Rhymni, mae'n rhaid i siartiau anesthetig gofnodi tymheredd y claf ar yr adeg y rhoddir cyffuriau.		Cyfathrebiad ysgrifenedig â'r arweinydd clinigol i sicrhau a chynorthwyo cydymffurfiaeth	Uwch Nyrs	Ar unwaith
Pan fydd meddyginiaethau'n cael eu hatal yn fwriadol, dylid dynodi dyddiadau adolygu yn eglur ar gyfer ailddechrau meddyginiaethau. Nodwyd fod angen rhoi sylw i hyn yn yr Uned Asesu Meddygol.		Cynhelir archwiliadau cysoni meddyginiaethau yn feunyddiol Archwilio siartiau presgripsiwn i sicrhau rhagnodi priodol trwy archwiliadau cysoni beunyddiol wrth dderbyn	Arweinydd Fferylliaeth a Chyfarwyddwr Clinigol	Hydref 2017
Ar draws yr holl adrannau a arolygwyd, mae'n rhaid rheoli tymheredd mannau storio meddyginiaeth a chynnal archwiliadau rheolaidd o dymheredd ystafelloedd i sicrhau y cynhelir tymheredd storio priodol.		Sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau Fferyllol ar gyfer storio meddyginiaethau yn ddiogel trwy archwiliad rheoli meddyginiaethau a chysoni meddyginiaethau beunyddiol. Sicrhau archwiliadau rheolaidd o dymheredd ystafelloedd ac archwiliadau beunyddiol o dymheredd oergelloedd gan staff nyrsio yn feunyddiol.	Rheolwr Ward Fferylliaeth Gwaith Ystadau ac	Hydref 17
Dylid cyflwyno archwiliad o ragnodi gwrthfotigau a dylid cwblhau dyddiadau hyd wrth ragnodi gwrthfotigau.		Cynyddu ymwybyddiaeth yr holl staff o ganllawiau gwrthficrobaidd Offeryn archwilio i gael ei ddatblygu a'i gyflwyno i fonitro rhagnodi gwrthfotigau	Arweinydd Fferylliaeth a Chyfarwyddwr Clinigol	Tach 17

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Roedd cyfradd cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff isel ar draws pob un o'r tair adran a arolygwyd ym meysydd diogelu oedolion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cyfredol yn y maes hwn cyn gynted â phosibl. Roedd angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu plant hefyd.</p>	<p>2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl</p>	<p>Matrics hyfforddiant i gael ei gadw a'i fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth</p> <p>Diwrnodau cwrdd i ffwrdd i gael eu trefnu ar gyfer y ward i'r staff gyflawni hyfforddiant statudol a gorfodol, gan gynnwys diogelu oedolion a phlant</p> <p>Hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Iefel 1 a 2 ar-lein i gael ei gyflawni gan yr holl staff</p> <p>Monitro cydymffurfiaeth Afarniad Personol ac Adolygu Datblygiad i sicrhau bod anghenion dysgu'r staff yn cael eu nodi</p> <p>Mae asesu pediatrig yn digwydd drwy'r Uned Mân ANafiadau nid yr Uned Asesu Meddygol, sy'n ymdrin ag oedolion yn unig. Rhoddir sylw i ddiogelu plant drwy'r hyfforddiant gofal brys i'r holl staff.</p>	<p>Uwch Nyrs</p> <p>Uwch Nyrs (Ward Rhymni)</p>	<p>Medi 17</p>
<p>Mae angen rhoi sylw i'r man anffurfiol a ddefnyddir ar gyfer storio offer yn yr Uned Asesu Meddygol i sicrhau bod yr offer yn cael ei lanhau</p>	<p>2.9 Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau</p>	<p>Archwiliad o stoc offer cyfredol i gael ei gynnal</p> <p>Unrhyw offer y canfyddir ei fod yn</p>	<p>Rheolwr Ward</p>	<p>Ar unwaith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
a'i archwilio'n briodol a bod unrhyw offer sydd wedi torri yn cael ei symud o'r fan hon.	diagnostig	ddiffygiol i gael ei lanhau a'i ddadgomisiynu/trwsio  Nodi man addas yn yr Uned Asesu Meddygol ar gyfer storio offer yn briodol		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC sut y bydd yn sicrhau bod yr holl bersonél perthnasol yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau hwyr i restr theatr. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos y camau a gymerwyd i sicrhau bod prosesau eglur ar waith sy'n sicrhau nad yw rhestrau theatr anghywir dyblyg ar gael ar yr un pryd.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Caiff pob rhestr theatr ei llunio bythefnos ymlaen llaw a'i chofnodi'n electronig trwy ORMIS. Cynhelir archwiliad ychwanegol gan y tîm amserlenni y diwrnod cyn y mae'r rhestrau theatr yn mynd i gael eu defnyddio i sicrhau bod y rhestr yn adlewyrchu gweithgarwch cywir - unwaith eto, caiff hyn ei gofnodi'n electronig trwy ORMIS. Cynhelir cyfarfod briffio diogelwch cyn-rhestr cyn i'r theatr gychwyn, a gofnodir ar y bwrdd gwyn yn y theatr ac a gyfathrebu i staff wardiau ar lafar wedyn. Cofnodi electronig yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae system newydd a fydd yn galluogi hyn yn cael ei threalu ar hyn o bryd.  Mae llinellau cyfathrebu eglur wedi cael eu hamlygu o'r theatr i'r ward erbyn hyn.	Rheolwr Ward	Hydref 2017



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gyda'r rheolwr gweithredol yn y theatr i Nyrs â Gofal y ward.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos i AGIC y camau a gymerwyd i sicrhau bod tymheredd cleifion yn cael ei archwilio a'i gofnodi'n briodol yn ystod (ac nid dim ond ychydig cyn ac ar ôl) llawdriniaeth. Dylai fod system effeithiol sy'n sicrhau bod y perygl o hypothermia amdriniaethol cyn lleied â phosibl i bob claf.		<p>Caiff tymheredd yr holl gleifion sy'n derbyn llawdriniaeth ei gofnodi'n electronig trwy ORMIS. Caiff tymheredd ei gofnodi ar bob cam o lawdriniaeth – anaestheteg/mewndriniaethol/cyn gadael y theatr ac wrth adfer, gan sicrhau bod y risg o hypothermia amdriniaethol cyn lleied â phosibl.</p> <p>Mae cynlluniau gofal amdriniaethol yn mynd gyda'r claf ar ôl llawdriniaeth i'r ward gan ddangos cynhesu mewndriniaethol pan fo'n ofynnol</p>	<p>Rheolwr Ward</p> <p>Rheolwr Theatr Gweithredol</p>	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod protocol ac asesiad risg ffurfiol ar waith yn yr Uned Asesu Meddygol o ran neilltuo cleifion sy'n aros mewn coridorau a'r fan aros nad yw'n cael ei monitro.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd	<p>SOP i gael ei lunio o ran cleifion sy'n cael eu nyrsio yn y coridor, mewn mannau aros</p> <p>Asesiadau risg i gael eu cynnal pan fydd cleifion yn derbyn gofal yn y mannau hyn</p> <p>Staff i fod yn ymwybodol o'r broses uwchgyfeirio, yn enwedig pan fydd y</p>	<p>Rheolwr Ysbyty yr</p> <p>Uwch Nyrs</p>	Hydref 17

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		safle yn destun uwchgyfeirio uchel a chymryd camau fel sy'n briodol i wneud coridorau'n llai prysur		
Dylid diweddarau croesau diogelwch ar ward Oakdale yn barhaus i adlewyrchu gwybodaeth archwilio yn briodol.		Bydd croesau diogelwch yn cael eu diweddarau'n feunyddiol a chydymffurfiad yn cael ei fonitro i sicrhau adlewyrchiad cywir o wybodaeth archwilio	Rheolwr Ward	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau archwilio ar gyfer dogfennau cleifion yn gadarn ar draws adrannau a bod monitro digonol i wella safonau cofnodion cleifion ar draws y bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd.	3.5 Cadw cofnodion	Archwiliad o ddogfennau i gael ei gynnal yn unol â'r amserlen archwilio a chynlluniau gwella i gael eu llunio Archwiliadau i gael eu trafod mewn cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion misol Staff i gael eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion Archwiliad lechyd o Ansawdd ddwywaith y flwyddyn	Uwch Nyrs	Ar unwaith
Ar ward Rhymni ac yn yr Uned Asesu Meddygol, mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn dilyn y dull rheoli poen cydnabyddedig a chofnodi camau a gymerir yn llawn; neu gofnodi eu		Matrics hyfforddiant staff i gael ei gynnal a'i fonitro a defnyddio offeryn rheoli poen cydnabyddadwy fel PAINAD. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan archwiliad	Uwch Nyrs	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyfiawnhad clinigol o bâm nad ydynt yn ei ddilyn, mewn achosion lle ystyrir bod hyn yn briodol.		rheoli meddyginiaethau. Archwiliadau dogfennau rheolaidd i gael eu cynnal		
Yn yr Uned Asesu Meddygol, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod sgoriau poen cleifion yn cael eu cofnodi a'u diweddarau a bod y staff yn gallu cynnig tystiolaeth felly o sut y maent yn rheoli poen cleifion ar sail barhaus.		Cyflwynwyd system Ymyrraeth Glinigol Vital Pac ar 12/9/17 sy'n crynhoi camau rheoli a chofnodi poen Archwiliad rheolaidd o gleifion trwy Vital Pac a chyflwyno'r canlyniadau yn y QPS Ardal Mae sgoriau poen yn ofynnol ar ddogfennau NEWS, nyrs â gofal y ward i adolygu gweithrediad o ran sgoriau poen a'u cwblhad. I gael ei fonitro a'i archwilio trwy archwiliadau un claf ar y diwrnod	Uwch Nyrs Rheolwr Ward	Ar unwaith
Ym mhob adran, mae'r rhaid i staff nyrsio a gweithwyr cymorth gofal iechyd lofnodi, dyddio ac amseru cofnodion cleifion yn gyson. Mae'n rhaid i'r staff nodi eu swyddi hefyd.		Archwiliadau dogfennau rheolaidd i gael eu cynnal <a href="https://www.nmc.org.uk/standards/code/record-keeping/">https://www.nmc.org.uk/standards/code/record-keeping/</a> Nyrsys Cymwysedig i gael eu hatgoffa am yr atodedig Archwiliad iechyd o ansawdd bob dwy	Uwch Nyrs Rheolwyr Ward	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar ward Rhymni, ni ddylid gadael cofnodion cleifion yn agored a heb eu goruchwyllo. Mae angen storio cofnodion cleifion yn ddiogel bob amser er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac i atal mynediad heb awdurdod.</p>		<p>flynedd</p> <p>Sefydlu mannau ar y ward lle gellir storio nodiadau'n ddiogel</p> <p>Sicrhau bod y fan lle mae cofnodion cleifion yn cael eu storio wedi ei gyfyngu i bersonél ag awdurdod yn unig</p> <p>Os na fyddant yn cael eu goruchwyllo, gofalu bod trolïau cofnodion cleifion wedi eu cloi</p>	<p>Rheolwr Ward (Uned Asesu Meddygol)</p> <p>Rheolwr Ward (Ward Rhymni)</p>	<p>Ar unwaith</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i fonitro cynlluniau gwella AGIC ar lefel ward, yn barhaus, er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau sydd heb eu cymryd yn cael sylw a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ar draws adrannau.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Adroddiad AGIC i gael ei fonitro gan y Grŵp Dysgu a Gwella Safonau Gofal Cleifion</p> <p>Adroddiad AGIC i gael ei fonitro gan bwyllgorau QPS ym mhob is-adran</p> <p>Trafod cynllun AGIC yng nghyfarfodydd 1 i 1 y Rheolwyr Ward</p> <p>Trafod cynllun AGIC gyda staff ward yn ystod cyfarfodydd tîm ward</p> <p>Cynllun AGIC i gael ei rannu yn y</p>	<p>Nyrsys adrannol</p> <p>Is-</p>	<p>Ar unwaith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Gyfarwyddiaeth Feddygol</p> <p>Diweddariad cynlluniau gweithredu a sicrwydd i gael eu trafod yn y Cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion</p> <p>Ffeil cynllun gweithredu a diweddariadau i gael ei chadw ar bob ward i'r holl staff gael mynediad ati</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio ar ward Oakdale i sicrhau bod staff digonol i ddiwallu anghenion cleifion a hynny'n brydlon.</p>	7.1 Gweithlu	<p>Cynhaliwyd archwiliad aciwtedd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2017- trafod y canlyniadau</p> <p>Adolygiad beunyddiol o aciwtedd a gweithgarwch ar y ward ac uwchgyfeirio priodol ac amserol</p> <p>Hysbysu am gleifion sydd ag aciwtedd uchel trwy SBAR a gweithredu polisi gofal estynedig yn briodol</p>	Nyrs Is-adrannol	Ar unwaith
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei wella ar ward Oakdale, yn yr Uned Asesu Meddygol ac ar</p>		<p>Sefydlwyd matrices hyfforddiant ward a hyfforddiant unigol</p> <p>Cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n fisol a'i adolygu mewn Cyfarfodydd Ansawdd</p>	<p>Nyrsys Is-adrannol (Is-adrannau Gofal Heb ei Drefnu, Gofal wedi'i</p>	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ward Rhymni.		<p>a Diogelwch Cleifion</p> <p>Sicrhau amseroedd hyfforddi wedi'u diogelu ar y rhestr ddyletswyddau ar gyfer yr holl staff</p> <p>Diwrnodau cwrdd i ffwrdd yn cael eu trefnu a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Gorfodol a Statudol</p>	Drefnu a Chymunedol)	
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio ac ymateb i'r pryderon a godwyd gan feddygon iau a nodir yn yr adroddiad, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Pryderon am y rota ar gyfer meddygon gradd ganolig</li> <li><input type="checkbox"/> Pryderon am oruchwyliaeth glinigol a ddarperir gan feddygon gradd ganolig ar-alwad (nad ydynt yn hyfforddi). Mae hwn yn fater difrifol y mae'n rhai ei archwilio a chymryd camau priodol.</li> <li><input type="checkbox"/> Gwaith gwella gwasanaeth ac adborth ar ddigwyddiadau</li> <li><input type="checkbox"/> Sicrhau bod meddygon iau yn ymwybodol</li> </ul>		<p>Ceir un swydd wag ar y rota Gradd Ganolig ar hyn o bryd (yn disgwyl dyddiad cychwyn). Caiff hon ei llenwi gan feddyg locwm.</p> <p>Cyfarfodydd adborth rheolaidd ar waith gyda meddygon iau i gynnig cyfle i godi pryderon</p> <p>Gwnaed graddau canolig nad ydynt yn hyfforddi yn ymwybodol o'u swyddogaeth o ran darparu goruchwyliaeth glinigol a phresenoldeb meddyg ymgynghorol rhwng 8am a 8pm yn yr Uned Asesu Meddygol</p> <p>Defnyddio sesiynau addysg meddygon</p>	Rheolwr Ysbyty Chyfarwyddwr Clinigol yr a	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
o hyfforddiant gorfodol ac yn ei gwblhau		iau i gynnig adborth a dysgu o ddigwyddiadau a chynlluniau gweithredu Cynnwys hyfforddiant gorfodol yn y Sesiwn Ymsefydlu		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Bronagh Scott  
**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio  
**Dyddiad:** 20 Medi 2017